Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon

Ionawr 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDiwylliant@senedd.wales**
Twitter: **@SeneddDiwyllCRh**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon

Ionawr 2025

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Heledd Fychan AS**
Plaid Cymru



**Gareth Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Lee Waters AS**
Llafur Cymru

---

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Rhun ap Iorwerth AS**
Plaid Cymru



**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**John Griffiths AS**
Llafur Cymru



**Siân Gwenllian AS**
Plaid Cymru

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru



**Laura Anne Jones AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion a Chasgliadau** .......... **7**

**Cyflwyniad** .......... **9**

Cefndir .......... 9

Cylch gorchwyl .......... 9

Casglu tystiolaeth .......... 9

**1. Cyfyngiadau cyllidol a chyllidebol** .......... **11**

Cyllideb Llywodraeth Cymru .......... 11

Cymhariaeth ryngwladol .......... 12

Cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru .......... 15

Amgueddfa Cymru .......... 15

Llyfrgell Genedlaethol Cymru .......... 16

Cyngor Celfyddydau Cymru .......... 17

Cyngor Llyfrau Cymru .......... 21

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru .......... 23

Chwaraeon Cymru .......... 24

Cyllideb Ddrafft 2025-26 .......... 26

Gwariant ataliol .......... 27

Proses y gyllideb .......... 31

Gwarchodaeth statudol .......... 34

Ein barn ni .......... 35

**2. Cyflwr diwylliant a chwaraeon** .......... **39**

Cyfranogiad a phresenoldeb .......... 39

Adeiladau a chyfleusterau .......... 40

Staffio .......... 45

Cyhoeddi .......... 47

Ein barn ni .......... 48

**3. Ymateb y sector** .......... **51**

Blaenoriaethau ..... 51

Creu incwm ..... 54

Cydweithredu ..... 59

Ein barn ni ..... 61

**4. Canlyniadau cymdeithasol ac economaidd ehangach ..... 62**

Cymunedau amrywiol ac economaidd-gymdeithasol isel ..... 62

Cymunedau gwledig ..... 65

Dawn y dyfodol ..... 65

Gwersi nofio a nofio mewn ysgolion ..... 69

Y Gymraeg a llythrennedd ..... 70

Ein barn ni ..... 71

**5. Ymyriadau Llywodraeth Cymru ..... 74**

Strategaeth ddiwylliant ..... 74

Llythyrau Cylch Gwaith ..... 75

Cyfrifoldeb am ariannu cwmnïau perfformio cenedlaethol ..... 76

Cymorth strategol ..... 79

Oriel celf gyfoes genedlaethol ..... 80

Ein barn ni ..... 82

**Atodiad 1: Cyllid diwylliant i Gymru o'i gymharu â gwledydd Ewrop.84**

Diffiniadau ..... 84

Methodoleg a chafeatau ..... 85

Data i Gymru ..... 86

Data ar gyfer y DU a gwledydd Ewropeaidd eraill ..... 88

Sut mae Cymru yn cymharu? ..... 91

Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth 8.1: Gwasanaethau hamdden a chwaraeon ..... 91

Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth 8.2 Gwasanaethau diwylliannol ..... 92

**Atodiad 2: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar. ..... 93**

**Atodiad 3: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ..... 95**

# Rhagair y Cadeirydd

Ers cyfnod rhy hir, mae diwylliant a chwaraeon wedi cael eu trin fel pethau sy'n "braf eu cael", ac mae'r sectorau hyn wedi wynebu degawd a mwy o ostyngiadau mewn cyllid, sydd wedi'u gadael yn fregus a heb ddigon o adnoddau. Yn sgil hyn, cafodd y sectorau hyn eu taro'n arbennig o galed gan y toriadau yng nghyllideb 2024-25 Llywodraeth Cymru, ac mae'r sefyllfa hyd yn oed yn waeth yn sgil effeithiau chwyddiant, costau cynyddol a llai o gyfranogiad ar ôl COVID.

Yng Nghymru, mae cyllid ar gyfer diwylliant a chwaraeon yn is nag yn y rhan fwyaf o wledydd Ewrop, sy'n anffodus yn amlygu'r diffyg strategaeth, gweledigaeth a chyfeiriad a roddwyd i'r meysydd polisi hanfodol hyn gan Lywodraeth Cymru. Rhaid unioni hyn, fel bod gwariant y pen ar y meysydd hyn yn gyffelyb i wariant cenhedloedd tebyg. Os na fydd hyn yn digwydd, byddai perygl difrifol i Gymru gael ei gadael ar ôl o ran cyflawniadau ym maes diwylliant a chwaraeon. Ar ben hynny, byddai'n peryglu agweddau ar ein cymeriad fel cenedl, lefelau mwynhad dinasyddion mewn bywyd pob dydd, a'n safle ar lwyfan y byd.

Mae diwylliant a chwaraeon yn llinynnau hanfodol yng ngwead yr hyn sy'n gwneud bywyd yn werth ei fyw: maent yn cyfoethogi profiadau pobl yn gyffredinol yn hytrach na'n bethau moethus i'w mwynhau ar adegau o ddigonedd yn unig. Ac eto, mae'r tanariannu cyson a didostur ar gyfer diwylliant a chwaraeon yn golygu mai "Cymru â diwylliant bywiog" yw'r nod sydd wedi'i datblygu leiaf o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 . Mae hefyd yn tanseilio gallu'r meysydd polisi hyn i gryfhau cydlyniant cymunedol, ac i wella llesiant corfforol a meddyliol pobl, sydd wedi'i brofi. Mae'n rhatach buddsoddi mewn gofal ataliol na thrin afiechyd, ond yn anffodus, ceir diffyg cydgysylltu ar draws y llywodraeth o ran manteision diwylliant a chwaraeon. Byddai categori 'ataliol' o wariant yng nghyllidebau'r dyfodol yn helpu i gydnabod ac ariannu gwir werth y sectorau hyn, a chredwn y gallai fod rhinwedd mewn cyflwyno newid o'r fath.

Ar hyn o bryd, mae effaith toriadau llym yn y sectorau hyn wedi bod yn sylweddol. Mae sefydliadau wedi'u gorfodi i ddileu swyddi a blaenoriaethu eu goroesiad, tra bod gwaith newydd yn aml wedi'i neilltuo er budd prosiectau mwy diogel sydd wedi'u "profi" ac sy'n fwy tebygol o dalu costau. Mae gwaith allgymorth cymunedol llawer o sefydliadau wedi dioddef yn sgil y toriadau gan amharu ar gyfranogiad ardaloedd llai breintiedig yn y sectorau hyn. Mae gormod o sefydliadau a chwmnïau wedi wynebu argyfyngau, ac mae angen dirfawr am fwy o gyfeiriad strategol arnynt gan Lywodraeth Cymru.

Ar ben hynny, mae cyflwr ffisegol gormod o gyfleusterau chwaraeon a diwylliannol mewn cymunedau ledled y wlad yn bryderus o wael. Mae llawer o leoliadau o dan fygythiad o gau, ac mae costau cynyddol yn bygwth hyfywedd mwy fyth o leoliadau eraill. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod yr asedau cymunedol hyn yn parhau'n agored ac yn hygyrch i bawb, a'u bod yn diwallu anghenion eu cymunedau.

Ond nid dim ond y presennol sydd o dan fygythiad gan y toriadau hyn: effaith debygol y diffyg buddsoddiad hwn mewn cyfleusterau ac mewn sefydliadau fydd dyfodol lle mae ein pobl ifanc yn cael eu hamddifadu o'r cyfle i archwilio eu doniau ac i gynrychioli Cymru ar lwyfan y byd. Mae perygl gwirioneddol y bydd cyfranogiad mewn diwylliant a chwaraeon yn dod yn fwy elitaidd fyth, ac mai'r bobl hynny o gymunedau economaidd-gymdeithasol amrywiol ac is fydd yn teimlo effaith y toriadau hyn fwyaf. Mae'r sectorau hyn yng Nghymru yn wynebu dyfodol llwm oni bai ein bod yn gweld newidiadau sylweddol.

Bwriad yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yw bod yn agoriad llygad i Lywodraeth Cymru, a rhoi'r cyfle iddi newid y sefyllfa bryderus hon. Ni allwn ganiatáu i ddiwylliant a chwaraeon ddod yn fraint i'r cyfoethog a'r ychydig – oherwydd byddai pob un ohonom ar ein colled pe bai hynny'n digwydd.

**Delyth Jewell AS**

Cadeirydd y Pwyllgor

# Argymhellion a Chasgliadau

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid ar gyfer diwylliant a chwaraeon hyd nes ei fod yn gymaradwy (o ran gwariant y pen) â chyllid gwledydd tebyg. ..... 36

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno, ar draws ei holl adrannau, gategori 'ataliol' o wariant yng nghyllidebau'r dyfodol, gan symud tuag at olwg cyllidebu tymor hwy er mwyn helpu i gynyddu a diogelu iechyd y boblogaeth. Byddai hyn yn helpu i gydnabod a chyllido diwylliant a chwaraeon yn briodol am y gwerth sydd ganddynt y tu hwnt i'w gwerth cynhenid. ..... 37

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ailedrych ar y ffioedd sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff. ..... 37

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth drawsadrannol gydweithredol i gyllido diwylliant a chwaraeon, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau cyllid yn cael eu cydgysylltu â blaenoriaethau ehangach y llywodraeth, yn enwedig iechyd ac addysg. Dylai'r strategaeth hon gydnabod chwaraeon a diwylliant fel cyfryngau allweddol i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. ..... 38

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru rymuso sefydliadau diwylliant a chwaraeon drwy eu galluogi i wario cyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn unol â'u prosesau llywodraethu eu hunain, a heb fod angen awdurdodiad ychwanegol diangen gan Lywodraeth Cymru. Wrth wneud hynny, dylai ystyried sut y gall gael gwared ar rwystrau megis gofynion achos busnes, ac yn lle hynny darparu mwy o gyllid fel cyfraniadau ychwanegol at eu cymorth grant. ..... 38

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cynhwysfawr o gyflwr cyfleusterau chwaraeon a diwylliannol, gan gynnwys sut i wneud y defnydd gorau o gyfleusterau chwaraeon mewn ysgolion. Dylai'r adolygiad hwn ystyried y rhwystrau a allai atal rhagor o ddefnydd o gyfleusterau ysgol y tu allan i oriau addysgu a sut i oresgyn y rhwystrau hynny. ..... 49

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru roi dadansoddiad i'r Pwyllgor o sut mae'r cyllid ychwanegol o £5 miliwn yn ystod y flwyddyn wedi cael ei wario. ..... 50

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o gyfeiriad strategol i alluogi'r sectorau diwylliant a chwaraeon i ffynnu a chyflawni amcanion a

blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. I'r perwyl hwn, dylai Blaenoriaethau Diwylliant arfaethedig Llywodraeth Cymru gynnwys ymrwymiadau clir a mesuradwy tuag at y nod hwn.......... 61

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth nofio mewn ysgolion i sicrhau bod plant sy'n gadael yr ysgol gynradd yn gallu nofio. Dylai'r strategaeth hon gydnabod pwysigrwydd darparu digon o gyfleusterau a thrafnidiaeth..........72

**Argymhelliad 10.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ymateb i bryderon y sector cyhoeddi ac ystyried cynyddu'r cyllid y mae'n ei roi i'r sector..........73

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu llythyrau cylch gwaith y sefydliadau a ariennir ganddi yn sgil y gostyngiadau yn eu cyllid mewn termau real. Dylai'r gofynion yn y llythyrau cylch gwaith fod yn glir ac yn bendant, ac yn gymesur â lefel y cyllid.......... 82

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru ddadansoddi'r model mwyaf addas ar gyfer ariannu cwmnïau celfyddydau cenedlaethol: boed gan Gyngor Celfyddydau Cymru (y model presennol), Llywodraeth Cymru, neu gyfuniad o'r ddau.......... 83

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â phrosiect yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, gan gynnwys sut y bydd yn cael ei ariannu. .......... 83

**Casgliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar weithredu argymhelliad 6 yn adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd awdurdodau lleol..........37

**Casgliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar gynnydd wrth weithredu argymhelliad 3 yn ein hadroddiad ar gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig.......... 49

**Casgliad 3.** Dylai'r Gweinidog Sgiliau, Diwylliant a Phartneriaeth Gymdeithasol gynnal trafodaethau ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ynghylch sut y gall y sector cyhoeddi helpu i wella llythrennedd pobl Cymru a chefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru, sef miliwn o siaradwyr. ..........73

# Cyflwyniad

## Cefndir

**1.** Roedd gostyngiadau yn y cyllid ar gyfer pob maes diwylliant a chwaraeon yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Arweiniodd adolygiad buddsoddi Cyngor y Celfyddydau yn 2023 hefyd at ddyraniadau gwahanol o gyllid refeniw sefydliadau celfyddydol, gan gynnwys toriad o 12 y cant i Opera Cenedlaethol Cymru.

**2.** Yn dilyn pryderon helaeth ynghylch effaith llai o gyllid ar ddiwylliant a chwaraeon, penderfynodd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol (y Pwyllgor) gynnal ymchwiliad i weld hyd a lled yr effaith ar y ddau sector.

## Cylch gorchwyl

**3.** Yn ein cyfarfod ar 17 Gorffennaf 2024, gwnaethom gytuno ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer yr ymchwiliad:

- Pa effeithiau y mae llai o gyllid wedi'u cael ar eich sefydliad a'ch sector hyd yma?
- Pa fesurau ydych wedi'u cymryd o ganlyniad i hyn, megis newid beth rydych yn ei wneud a sut rydych yn ei wneud?
- I ba raddau y bydd yr effeithiau hyn yn ddiwrthdro (e.e. lleoliadau'n cau, neu sgiliau arbenigol yn cael eu colli, yn hytrach na chyfyngiad dros dro ar weithgareddau)?
- Pa ymyriadau yr hoffech eu gweld gan Lywodraeth Cymru, y tu hwnt i ragor o gyllid?
- I ba raddau y mae'r effeithiau a ddisgrifiwch yn wahanol ar bobl â nodweddion gwarchodedig a phobl o statws economaidd-gymdeithasol is?

## Casglu tystiolaeth

**4.** Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar 26 Gorffennaf 2024, a daeth i ben ar 6 Medi 2024. Cawsom 54 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

**5.** Cynhaliwyd naw sesiwn tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid, a hynny rhwng 26 Medi 2024 a 24 Hydref 2024, a chlywsom dystiolaeth lafar gan Jack Sargeant AS, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, (y Gweinidog), ar 13 Tachwedd 2024.

**6.** Rhwng 16 Medi 2024 a 25 Medi 2024, hwylusodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion saith grŵp ffocws ac un cyfweliad â 22 o sefydliadau. Gwnaethom gyhoeddi nodyn cryno o'r trafodaethau hyn.

**7.** Fel rhan o’r ymchwiliad, fe wnaethom ni ymweld â Chanolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd ar 2 Hydref 2024. Hefyd, cynhaliwyd trafodaeth bord gron gyda chynrychiolwyr o’r sector cyhoeddi yng Nghymru ar 28 Tachwedd 2024.

**8.** Rydym yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at ein hymchwiliad. Mae manylion yr holl dystiolaeth a gasglwyd ar gael yn yr Atodiadau i’r adroddiad hwn.

# 1. Cyfyngiadau cyllidol a chyllidebol

## Cyllideb Llywodraeth Cymru

**9.** Cafwyd toriadau sylweddol i ddiwylliant a chwaraeon yng nghyllideb 2024-25. Mae ffigurau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos gostyngiad o 17 y cant mewn termau real yng nghyllid refeniw diwylliant a chwaraeon rhwng 2014-15 a 2024-25, a chynnydd o 195 y cant mewn cyllid cyfalaf.

**10.** Yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu, dywedodd sefydliadau wrthym fod y gostyngiad yn y cyllid wedi bod yn systematig dros y saith i ddeng mlynedd diwethaf, mewn termau real. Dywedodd un cyfranogwr y canlynol:

> *"Rydyn ni wedi cael llai o arian ar ben llai o arian dros y degawd diwethaf. Felly, mae'r effaith yn fwy fyth ac mae'n effeithio'n ddifrifol arnom."*

**11.** Rhwng 2014-15 a 2024-25:

- Mae cyllid cymorth grant refeniw a chyfalaf Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (y Comisiwn) wedi gostwng 34 y cant mewn termau real.
- Mae cyllid refeniw a chymorth grant cyfalaf Chwaraeon Cymru wedi gostwng 9 y cant mewn termau real.
- Mae cyfanswm incwm Cyngor Llyfrau Cymru wedi gostwng 20 y cant mewn termau real.
- Mae cyllid refeniw a chymorth grant cyfalaf Llyfrgell Genedlaethol Cymru (y Llyfrgell) wedi gostwng tua thri y cant mewn termau real.
- Mae cyllid refeniw Cyngor Celfyddydau Cymru (ACW) wedi gostwng tua 29 y cant mewn termau real.
- Mae cyllid refeniw a chymorth grant cyfalaf Amgueddfa Cymru wedi gostwng tua un y cant mewn termau real.

**12.** Mae darparu gwasanaethau diwylliant, chwaraeon a hamdden yn ddewisol i awdurdodau lleol. Rhwng 2013-14 a 2023-24, bu gostyngiad o 28 y cant mewn termau real yng nghyllid refeniw awdurdodau lleol ar gyfer llyfrgelloedd,

diwylliant, treftadaeth, chwaraeon a hamdden. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) y canlynol wrthym:

> *"Mae gostyngiad yn y buddsoddiad gan Gynghorau oherwydd eu grant bloc Grant Cynnal Refeniw (RSG) llai a phwysau digynsail ar gyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol yn gwaethygu'r broblem ar gyfer gwasanaethau anstatudol fel Hamdden a Diwylliant."*[1]

**13.** Dywedodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru fod gwariant uniongyrchol Llywodraeth Cymru ar chwaraeon yn cymharu'n anffafriol iawn â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig. Clywsom y canlynol:

> *"Norway put £55 per head into sport, and they're delivering outstanding, world-class athletes across all manner of sports. In Wales, we're about £5 or £6 a head. Slovenia is £8 a head, Australia £10, New Zealand £14, Ireland £27.50. We're very much short-changed here in Wales per head, and that needs to change."*[2]

**14.** Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i fuddsoddi o leiaf £100 miliwn yn fwy yn y celfyddydau a diwylliant erbyn 2028-29.[3]

**15.** Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi gorfod gwneud penderfyniadau difrifol a phenderfyniadau anodd, ond ei bod wedi parhau i fuddsoddi yn y sector er hynny.[4]

## Cymhariaeth ryngwladol

**16.** Cymharodd rhai tystion wariant sector cyhoeddus ar ddiwylliant a chwaraeon rhwng Cymru a gwledydd eraill. Mae Ymchwil y Senedd wedi dadansoddi cyfanswm gwariant y llywodraeth yng Nghymru a gwledydd Ewropeaidd eraill. Mae'r dadansoddiad llawn a'r fethodoleg ar gael yn Atodiad 1.


**17.** Mae Cymru yn y trydydd safle o'r gwaelod o blith y gwledydd yr edrychwyd arnynt o ran cyllid y pen ar gyfer gwasanaethau hamdden a chwaraeon, ac mae

---

[1] Tystiolaeth ysgrifenedig, CLlLC
[2] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 224
[3] Llywodraeth yr Alban, Cyllideb yr Alban 2025-26
[4] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 14

ganddi swm tebyg o gyllid â Gwlad Pwyl a Lithwania. Mae Cymru yn is na'r DU o ran cyllid: mae gan Gymru gyllid o £59.75 y pen ar gyfer gwasanaethau hamdden a chwaraeon o'i gymharu â chyllid y DU o £66.18 y pen.


**Ffigur 1: Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth gwledydd Ewropeaidd 8.1 Gwariant gwasanaethau hamdden a chwaraeon y pen mewn GBP yn 2022.**




***Data dros dro***

**18.** Mae Cymru yn ail o'r gwaelod o ran gwariant y pen ar wasanaethau diwylliannol, ac yn is na'r holl wledydd dethol heblaw Gwlad Groeg. Mae gan Gymru wariant o £69.68 y pen ar wasanaethau diwylliannol o'i gymharu â gwariant y DU o £91.12 y pen.

### Ffigur 2: Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth gwledydd Ewropeaidd 8.2 Gwariant gwasanaethau diwylliannol fesul person mewn GBP yn 2022.





***Data dros dro***

## Cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru

**19.** Mae cyfran helaeth o weithgarwch Llywodraeth Cymru ym meysydd diwylliant a chwaraeon yn cael ei gyflawni gan gyrff hyd braich a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sef Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, a Chwaraeon Cymru.

### Amgueddfa Cymru

**Ffigur 3: Cyllid Amgueddfa Cymru o 2014-15 hyd heddiw**




***DS: Mae'r ffigurau cymorth grant ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn dod o gyllidebau Llywodraeth Cymru, felly nid oes modd eu cymharu'n uniongyrchol â ffigurau'r blynyddoedd blaenorol.***


***DS: Nid yw'r ffigurau cymorth grant yn cynnwys cymorth grant eitemau a chyllid arall gan y llywodraeth.***

**20.** Gostyngodd cyllid refeniw Amgueddfa Cymru o £29.6 miliwn yng nghyllideb derfynol 2023-24 i £27.9 miliwn yng nghyllideb derfynol 2024-25. Mae hyn yn ostyngiad o 6 y cant. Dros yr un cyfnod, roedd cyllid cyfalaf yn parhau i fod yn £5 miliwn. Yn 2014-15, £23 miliwn oedd y cyllid refeniw yr Amgueddfa. Mae hyn yn

golygu bod ei chyllid refeniw wedi gostwng naw y cant mewn termau real dros ddegawd[5].

## Llyfrgell Genedlaethol Cymru

### Ffigur 4: Cyllid y Llyfrgell Genedlaethol o 2014-15 hyd heddiw




***DS: Mae'r ffigurau cymorth grant ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn dod o gyllidebau Llywodraeth Cymru, felly nid oes modd eu cymharu'n uniongyrchol â ffigurau'r blynyddoedd blaenorol, sy'n dod o gyfrifon y Llyfrgell.***

***DS: Nid yw'r ffigurau cymorth grant yn cynnwys cyllid arall gan y llywodraeth at ddibenion penodol.***

***DS: Nid yw ffigurau cymorth grant refeniw 2024-25 yn cynnwys £725,000 o gyllid refeniw a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024, gan nad yw'n glir pa fath o gyllid yw hwn.***

***Ffynonellau: 2014-15 i 2022-23: Cyfrifon Blynyddol Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 2023-24: Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru, 2024-25: Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru.***

**21.** Gostyngodd cyllid refeniw y Llyfrgell Genedlaethol o £13.1 miliwn yng nghyllideb derfynol 2023-24 i £12.3 miliwn yng nghyllideb derfynol 2024-25; gostyngiad o chwech y cant. Dros yr un cyfnod, roedd cyllid cyfalaf yn parhau i fod yn £2 filiwn. Yn 2014-15, roedd cyllid refeniw'r Llyfrgell yn £10.5 miliwn, sy'n golygu

[5] Cyfrifwyd hyn ar 22 Mai 2024 drwy ddefnyddio cyfrifiannell chwyddiant Banc Lloegr.


bod ei chyllid refeniw wedi gostwng tua 12 y cant mewn termau real dros ddegawd.

**22.** Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £3.2 miliwn ychwanegol o gyllid cyfalaf ar gyfer y Llyfrgell Genedlaethol ac Amgueddfa Cymru, ond ni nododd faint fyddai'n cael ei roi i bob sefydliad.

**23.** Ym mis Medi 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £5 miliwn ychwanegol o gyllid refeniw ar gyfer diwylliant a chwaraeon yn 2024-25, gan gynnwys £725,000 ar gyfer y Llyfrgell Genedlaethol.

## Cyngor Celfyddydau Cymru

### Ffigur 5: Cyllid Cyngor Celfyddydau Cymru o 2014-15 hyd heddiw




***DS: Mae'r ffigurau cymorth grant ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn dod o gyllidebau Llywodraeth Cymru, felly nid oes modd eu cymharu'n uniongyrchol â ffigurau'r blynyddoedd blaenorol, sy'n dod o Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Cyngor y Celfyddydau.***

***DS: Nid yw'r ffigurau cymorth grant yn cynnwys cyllid arall gan y llywodraeth at ddibenion penodol.***

***DS: Mae cyfanswm yr incwm yn 2020-21 a 2021-22 yn cynnwys cyllid COVID (£18.3 miliwn yn 2020-21 a £12.7 miliwn yn 2021-22). Mae cyfanswm yr incwm yn 2022-23 yn cynnwys £25.9 miliwn o gyllid cyfyngedig gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau penodol eraill.***

***Yr elfen fwyaf o hyn yw'r dyfarniad cyfalaf gwerth £23.5 miliwn ar gyfer Theatr Clwyd sydd wedi'i ail-ddyfarnu i Gyngor Sir y Fflint***

***DS: Nid yw ffigurau cymorth grant refeniw 2024-25 yn cynnwys £1.5 miliwn o gyllid refeniw a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024.***

***Ffynonellau: 2014-15 i 2022-23: Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru, 2023-24: Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru, 2024-25: Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru.***

**24.** Gostyngodd cyllid refeniw CCC o £33.4 miliwn yng nghyllideb derfynol 2023-24 i £30.5 miliwn yng nghyllideb derfynol 2024-25; gostyngiad o 9 y cant. Yn 2014-15, £32.42 miliwn oedd cyllid refeniw CCC. Mae hyn yn golygu bod ei gyllid refeniw wedi gostwng tua 29 y cant mewn termau real dros ddegawd. Dros yr un cyfnod, arhosodd cyllid cyfalaf yn £400,000.

**25.** Yn dilyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, gwnaeth CCC ddatganiad. Dywedodd y canlynol:

> *"Mae ein cyllideb bresennol yn is nawr nag yr oedd yn 2010. Mae hynny'n golygu ein bod wedi colli traean o'n harian mewn termau real yn y cyfnod yna. Bydd y toriad sylweddol newydd hwn o 10.5% yn ei gwneud hi'n anos fyth sicrhau bod gwaith celfyddydol o safon ar gael ledled Cymru ar gyfer ein holl gymunedau. Bydd yn effeithio ar y gwaith amhrisiadwy rydym yn ei gefnogi yn y Celfyddydau ac Iechyd, Addysg, y Gymraeg ac ehangu ymgysylltiad, gan gofio bod pob un ohonynt yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth. Y gyllideb hon o £30.429 miliwn ar gyfer 2024/25 yw'r isaf ers 2007/08."*[6]

**26.** Cafodd CCC £1.5 miliwn ychwanegol o gyllid refeniw ym mis Medi 2024. Dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd cyllid CCC "yn cael ei ddefnyddio i gefnogi sefydliadau celfyddydol, gan ganolbwyntio ar gryfhau eu trefniadaeth".[7]

**27.** Ar 3 Rhagfyr 2024, cyhoeddodd y Gweinidog £1 filiwn o gyllid refeniw ychwanegol i helpu i gryfhau trefniadaeth ac amddiffyn swyddi yn sector y celfyddydau, drwy CCC.[8]

[6] Cyngor Celfyddydau Cymru, Ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru i'r Gyllideb Gymreig, 20 Rhagfyr 2023
[7] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Cyllid ychwanegol ar gyfer Cyrff diwylliant a chwaraeon Hyd Braich a Cadw, 5 Medi 2024
[8] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Cronfa Diogelu Swyddi a Gwytnwch Sefydliadau Cyngor Celfyddydau Cymru, 3 Rhagfyr 2024

**28.** Dywedodd Llenyddiaeth Cymru, sy'n cael cyllid refeniw blynyddol gan CCC y canlynol:

> *"Mae'r toriad o 10.5% i CCC wedi arwain at leihad mewn lefelau staffio ac wedi effeithio ar ein perthynas waith. […] Ofnwn y bydd hyn yn arwain at lai o ddealltwriaeth o effaith ein gwaith o fewn CCC, a allai yn ei dro arwain at lai o gyllid pellach."*[9]

**29.** Ar 27 Medi 2023, cyhoeddodd CCC ganlyniad ei Adolygiad Buddsoddi, a oedd yn penderfynu pa sefydliadau fyddai'n cael cyllid refeniw amlflwyddyn gan CCC. Cafodd 81 o sefydliadau ledled Cymru gynigion amodol o gyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, sef cyfanswm o £29.6 miliwn.[10]

**30.** Un o'r prif benderfyniadau a wnaed gan CCC yn ystod yr Adolygiad Buddsoddi oedd torri 100 y cant o'r cyllid ar gyfer National Theatre Wales. Esboniodd dogfen yr Adolygiad Buddsoddi y canlynol:

> *"Nid yw hyn yn adlewyrchu unrhyw amheuon sydd gennym ynghylch potensial theatr Saesneg, na'r angen amdano, yng Nghymru. Yn wir, bydd yr Adolygiad Buddsoddi hwn yn gweld cynnydd yn nifer y cwmnïau sy'n cynhyrchu theatr Saesneg. Fodd bynnag, rydym yn ymrwymo i gynnal adolygiad o theatr Saesneg yng Nghymru ac o'r ymyriadau a'r gefnogaeth y gallai fod eu hangen yn y dyfodol."*[11]

**31.** Ar 18 Rhagfyr 2024, cyhoeddwyd bod National Theatre Wales wedi dod i ben ar ôl colli ei holl gyllid gan CCC.[12]

**32.** Roedd Adolygiad Buddsoddi 2023 hefyd yn cynnwys gostyngiad o 12 y cant yng nghyllid Opera Cenedlaethol Cymru, yn ogystal â diwedd ar gyllid Opera Canolbarth Cymru. Ariennir Opera Cenedlaethol Cymru hefyd gan Gyngor Celfyddydau Lloegr, i gydnabod y gwaith trawsffiniol y mae'n ei wneud. Bu gostyngiad o 35 y cant yng nghyllid Cyngor Celfyddydau Lloegr.

---

[9] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 31 Llenyddiaeth Cymru

[10] Cyngor Celfyddydau Cymru, Adolygiad Buddsoddi 2023: Cyngor Celfyddydau Cymru yn cyhoeddi cyllid aml-flwyddyn ar gyfer 81 o sefydliadau, 29 Medi 2023

[11] Cyngor Celfyddydau Cymru, Adolygiad Buddsoddi 2023 Adroddiad a Phenderfyniadau

[12] BBC Wales, Final curtain goes down on National Theatre Wales, 18 Rhagfyr 2024

**33.** Yn 2022, cafodd Opera Cenedlaethol Cymru £6.2 miliwn gan Gyngor Celfyddydau Lloegr a £4.6 miliwn gan CCC.[13] Mae ei gyllid blynyddol gan Gyngor Celfyddydau Lloegr wedi'i leihau i £4 miliwn,[14] sef yr un peth â'i gyllid gan CCC.

**34.** Ysgrifennodd Undeb y Cerddorion atom yn dweud y canlynol:

> *"These reductions are leading to such significant and permanent changes at a national company that is structurally important for arts and culture in Wales there is a strong case for Welsh Government to step in with additional support."*[15]

**35.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol ar y pryd mewn llythyr atom ar 25 Mehefin 2024 ei bod "yn anochel y bydd yn rhaid i CCC wneud rhai penderfyniadau anodd o ran cyllid". Fodd bynnag, dywedodd y canlynol:

> *"O dan yr egwyddor ariannu hyd braich, mae'r Adolygiad Buddsoddi yn fater i CCC ac nid yw Llywodraeth Cymru yn ymyrryd yn ei benderfyniadau ariannu."*[16]

**36.** Nododd hefyd fod opera yn cael 71 y cant o gyfanswm y gwariant ar y sector cerddoriaeth ar gyfer 2024-25.[17] Cadarnhaodd CCC mai Opera Cenedlaethol Cymru yw'r sefydliad â'r mwyaf o gymorth y mae'n ei ariannu.[18]

**37.** Galwodd Opera Cenedlaethol Cymru ar Lywodraeth Cymru i gymryd cyfrifoldeb am y cwmni a rhoi pob cyfle iddo.[19]

**38.** Dywedodd y Gweinidog wrthym ei fod yn ymwybodol bod Opera Cenedlaethol Cymru wedi gwneud cais am gyllid o'r £1.5 miliwn ychwanegol a gafodd CCC ym mis Medi 2024. Dywedodd y canlynol:


---

[13] Opera Cenedlaethol Cymru, Dogfennau corfforaethol
[14] Cyngor Celfyddydau Lloegr, Rhaglen Fuddsoddi 2023-26: Data
[15] Llythyr gan Undeb y Cerddorion at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 30 Mai 2024
[16] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol at Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 25 Mehefin 2024
[17] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol at Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 25 Mehefin 2024
[18] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 211
[19] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 361

> *"...where I stand on the WNO is that it's of national significance, it's important to have the Welsh National Opera. I want to see opera thriving here. There is that process where they can apply. I encouraged them to do so. They have done, and we need to await the outcome of that process and then see what the result is."*[20]

## Cyngor Llyfrau Cymru

### Ffigur 6: Cyllid Cyngor Llyfrau Cymru o 2014-15 hyd heddiw




***Ffynhonnell: Ffigurau a ddarparwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru ac a ddaeth o'r Cyfrifon Blynyddol.***

***DS. Mae ffigurau 2024-25 yn rhai sydd wedi'u cyllidebu yn hytrach na ffigurau gwirioneddol.***

***Yn 2024-25 cyfanswm y grantiau sydd wedi'u cyllidebu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Cyngor Llyfrau yw £3.98 miliwn, gostyngiad o 15 y cant o'r ffigur gwirioneddol yn 2023-24, sef £4.68 miliwn.***

**39.** Yng nghyllideb 2024-25, dyrannodd Llywodraeth Cymru £3.98 miliwn i'r Cyngor Llyfrau, gostyngiad o 15 y cant o'r ffigur gwirioneddol yn 2023-24, sef £4.68 miliwn. Rhwng 2014-15 a 2024-25, mae cyfanswm incwm y Cyngor Llyfrau wedi gostwng 20 y cant mewn termau real.

[20] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 88

**40.** Dywedodd y Cyngor Llyfrau wrthym mai effaith graidd y gostyngiadau cyllid yw llai o lyfrau a chylchgronau.[21] Eglurwyd mai'r unig ffordd y gall weithredu gyda grant Llywodraeth Cymru yw drwy gynhyrchu llai. Caiff 48 o lyfrau Saesneg eu cyhoeddi bob blwyddyn bellach, o gymharu hynny â 56 ddegawd yn ôl; ac yn yr un cyfnod mae nifer y llyfrau Cymraeg wedi gostwng o 185 i 122. Dywedodd y Cyngor Llyfrau fod hyn yn teimlo'n "counterintuitive" o ystyried dyhead Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg, a bod llyfrau yn helpu i ddatblygu sgiliau iaith. Yn ogystal â'r hyn a ddisgrifiwyd ganddo fel effaith graidd, dywedodd y Cyngor Llyfrau ei fod hefyd wedi colli'r llinellau gwariant yn y gyllideb ar gyfer hyfforddiant, cefnogi gemau a grantiau i siopau llyfrau Cymraeg.[22]

**41.** Rydym wedi bod yn gohebu am fodel ariannu cylchgronau'r Cyngor Llyfrau gyda'r Cyngor Llyfrau, y sector cyhoeddi a Llywodraeth Cymru. Mae'r ohebiaeth wedi canolbwyntio ar bryderon am sut mae'r Cyngor Llyfrau yn dosbarthu cyllid ar gyfer cylchgronau Saesneg, a godwyd yn bennaf gan Emily Trahair, cyn-olygydd y cylchgrawn diwylliannol a gwleidyddol Planet na chafodd ei gyllid ei adnewyddu. Ni chafodd cyllid New Welsh Review ei adnewyddu ychwaith.

**42.** Yn ôl Emily Trahair, roedd yr amodau gwaith a bennwyd gan yr amodau ariannu bellach yn annioddefol i nifer o gyhoeddiadau. Mewn erthygl olygyddol yn nodi rhifyn olaf Planet ym mis Gorffennaf 2024, dywedodd y canlynol:

> *"many of us could no longer balance our budgets at all, despite strenuously engaging in myriad additional income-raising activities, and having no shortage of expertise on the most appropriate alternative forms of revenue and support."*[23]


**43.** Mewn llythyr atom ym mis Medi 2024, cytunodd y Cyngor Llyfrau fod:

> *"degawd o gyllid yn ei unfan a'r toriad yn y gyllideb eleni wedi creu amgylchedd bron yn amhosibl i gyhoeddwyr annibynnol bach fodoli, heb sôn am ffynnu."*[24]

[21] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 173
[22] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 173-175
[23] Planet, Hwyl Fawr, Planet 253, Gorffennaf 2024
[24] Llythyr gan Gyngor Llyfrau Cymru at Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Medi 2024

## Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

### Ffigur 7: Cyllid Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru o 2014-15 hyd heddiw




***Ffynhonnell: ffigurau a ddarparwyd gan CBHC***

**44.** Gostyngodd cyllid refeniw y Comisiwn o £1.9 miliwn yng nghyllideb 2023-24 i £1.8 miliwn yn 2024-25; gostyngiad o 5 y cant. Dros yr un cyfnod, roedd cyllid cyfalaf yn parhau i fod yn £50,000. Ers 2014, bu gostyngiad o 34 y cant mewn termau real o ran refeniw a chyllid cymorth grant gan Lywodraeth Cymru i'r Comisiwn.

**45.** Pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid refeniw ychwanegol o £5 miliwn ym mis Medi 2024 ar gyfer diwylliant a chwaraeon yn 2024-25, rhoddwyd £90,000 i'r Comisiwn.

**46.** Dywedodd y Comisiwn y canlynol wrthym:

> *"The last decade has seen a slow attrition of our budgets, starting with the substantial in-year cut of in 2014-15, which led to the loss of 14 posts, and continuing with flat budgets every year until this year's deeper cut of 10.5 per cent."*[25]


[25] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 40 CBHC

**47.** I wneud iawn am golli cyllid craidd, dywedodd y Comisiwn ei fod wedi gorfod gweithio'n galed i sicrhau cyllid allanol, a heb hynny na fyddai wedi gallu cyflawni ei gylch gorchwyl gan y llywodraeth. Dywedodd y canlynol:

> *"our funding from Welsh Government pays for the salaries of our staff and the things that we have to do, like computing, cyber security—that comes at a big cost, £110,000 a year just for our computers, before we even sit at our desks. So, we've had to work very, very hard to win external funding for the KPIs."*[26]

## Chwaraeon Cymru

### Ffigur 8: Cymorth grant Llywodraeth Cymru a chyllid loteri Chwaraeon Cymru o 2014-15 hyd heddiw




***DS: Mae cymorth grant 2019-20 yn cynnwys £1.5 miliwn ar gyfer y Gronfa Iach ac Egnïol a £200,000 ar gyfer y Gronfa Cymorth Brys. Mae 2020-21 yn cynnwys £14.2 miliwn o refeniw cysylltiedig â'r Gronfa Cydnerthedd Chwaraeon. Mae 2021-22 yn cynnwys £4 miliwn o'r Gronfa Cydnerthedd Chwaraeon a /£1 filiwn o'r fenter Gaeaf Llawn Lles. Mae 2021-22 yn cynnwys £500,000 o gymorth costau byw ar gyfer y sector. Mae 2022-23 yn cynnwys £500,000 o gymorth costau byw ar gyfer y sector.***

**48.** O'i gymharu â chyllideb derfynol 2023-2024, fe wnaeth cyllid refeniw Chwaraeon Cymru ostwng o £23.8 miliwn i £21.8 miliwn yng nghyllideb derfynol

---

[26] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 195

2024-25 (8.4 y cant o ostyngiad mewn termau arian parod). Dros yr un cyfnod, roedd cyllid cyfalaf yn parhau i fod yn £6.8 miliwn. Rhwng 2014-15 a 2024-25, fe wnaeth cyfanswm cyllid refeniw a chymorth grant gan Lywodraeth Cymru i Chwaraeon Cymru ostwng 9 y cant mewn termau real.

**49.** Mae papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y sesiwn graffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 yn disgrifio adroddiad academaidd diweddar sy'n dangos:

> *"Am bob £1 sy'n cael ei gwario ar chwaraeon a hamdden egnïol yng Nghymru, y caiff buddiannau cymdeithasol gwerth £4.44 eu creu. Mae hyn yn dangos y cyfraniad blynyddol anhygoel y mae chwaraeon yn ei wneud i iechyd, a meysydd eraill, yn enwedig potensial chwaraeon i gynnig yr adnodd iechyd ataliol mwyaf effeithiol sydd ar gael inni. Gall chwaraeon gynnig yr adnodd iechyd ataliol mwyaf effeithiol i'r genedl, ond mae angen mwy o flaenoriaethu traws-sector i achosi newidiadau cynaliadwy yn yr hirdymor o ran cyfranogi."*[27]

**50.** Disgrifiodd Chwaraeon Cymru y toriad o £2.5 miliwn i'w gyllideb yn 2024/25 fel economi ffug, gan amcangyfrif bod y gostyngiad wedi arwain at golled o £11.1 miliwn o elw cymdeithasol ar fuddsoddiad.[28]

**51.** Clywsom fod Chwaraeon Cymru wedi ceisio cwtogi cymaint â phosibl ar oblygiadau'r gostyngiadau cyllid i'w bartneriaid drwy drosglwyddo dim ond 3.5 y cant o'r toriad. [29]

**52.** Rhoddwyd £1 filiwn i Chwaraeon Cymru ym mis Medi 2024 fel rhan o gyllid refeniw ychwanegol Llywodraeth Cymru ar gyfer diwylliant a chwaraeon.

**53.** Ar 11 Tachwedd 2024, cyhoeddodd Chwaraeon Cymru gyllid tuag at 37 o brosiectau chwaraeon o ganlyniad i gyllid cyfalaf gwerth £8 miliwn ar gyfer 2024-25 gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd Chwaraeon Cymru fod y cyllid:

> *"yn ehangu mynediad at chwaraeon a gweithgarwch corfforol ymhlith cymunedau, yn creu mwy o gaeau artiffisial mewn*

[27] Llywodraeth Cymru, Memorandwm ar gynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25
[28] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 41 Chwaraeon Cymru
[29] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 10

> *mannau sydd eu hangen fwyaf, a hefyd yn cefnogi ein hathletwyr mwyaf talentog i gyflawni eu breuddwydion."*[30]

**54.** Yn ôl Cymdeithas Tennis Lawnt a Tennis Cymru, pe bai cynllun buddsoddi cyfalaf Chwaraeon Cymru yn dod i ben, byddai hyn yn peri risg sylweddol i gynaliadwyedd cyfleusterau chwaraeon yn y dyfodol, gan beryglu'r twf mewn cyfranogiad.[31]

## Cyllideb Ddrafft 2025-26

**55.** Yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-6 a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2024, mae'r rhan fwyaf, ond nid pob un, o'r toriadau i wariant ar ddiwylliant a chwaraeon a weithredwyd yng nghyllideb 2024-25 wedi'u gwrthdroi.[32] Bydd Aelodau o'r Senedd yn craffu ar y Gyllideb Ddrafft cyn pleidlais derfynol ym mis Mawrth 2025.

**56.** Cyfanswm y dyraniad refeniw i'r sector yw £129.5 miliwn, sef cynnydd o 7 y cant o'i gymharu â chyllideb derfynol 2024-25, ond gostyngiad o 0.4 y cant o'i gymharu â chyllideb derfynol 2023-24.

**57.** Cyfanswm y dyraniad cyfalaf i'r sector yw £73.6 miliwn, sef cynnydd o 34 y cant o'i gymharu â chyllideb derfynol 2024-25, a chynnydd o 42 y cant o'i gymharu â chyllideb derfynol 2023-24.

**58.** Mae cyllid refeniw wedi cynyddu o'i gymharu â dyraniadau 2023-24 ar gyfer Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Mae wedi gostwng ar gyfer Cyngor y Celfyddydau (5 y cant) a Chwaraeon Cymru (5 y cant). Mae cyllid ar gyfer y Cyngor Llyfrau yn cael ei ddyrannu gan Cymru Greadigol, sef is-adran diwydiannau creadigol Llywodraeth Cymru, ac mae'r dyraniad refeniw hwn 8 y cant yn is yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 o'i gymharu â 2023-24.

---

[30] Chwaraeon Cymru, Y 37 prosiect chwaraeon fydd yn rhannu £3.5m o gyllid Llywodraeth Cymru, 11 Tachwedd 2024

[31] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 43 Cymdeithas Tennis Lawnt a Tennis Cymru

[32] Cymerir mai "diwylliant a chwaraeon" yw cyfanswm Llinellau Gwariant yn y Gyllideb Llywodraeth Cymru a ganlyn: Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru, Cadw, CBHC, Cymru Greadigol, cymorth i ddiwylliant a chwaraeon lleol a darlledu a'r cyfryngau.

## Gwariant ataliol

**59.** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn fynegiant clir o fwriad Llywodraeth Cymru i gynllunio gwasanaethau ar gyfer y tymor hwy.

**60.** Esboniodd ymateb Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft y canlynol:

> *"Mae llesiant diwylliannol yn gyfartal â llesiant amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gydnabod y rôl enfawr y mae'n ei chwarae wrth gefnogi pobl a'r blaned […] Yn rhy aml o lawer, gwasanaethau diwylliannol fel canolfannau hamdden a chyfleusterau celfyddydol yw'r rhai sy'n cael eu taro galetaf ar adegau o bwysau cyllidebol ar draws pob lefel o lywodraeth. Mae hyn er gwaethaf y ffaith mai dyma rai o'r union bethau sy'n ein cadw'n iach ar adegau o angen a phwysau costau byw."*[33]

**61.** Disgrifiodd cyfranogwr yn ein gweithgareddau ymgysylltu y Ddeddf fel darn rhyfeddol o ddeddfwriaeth sy'n torri tir newydd a galwodd am iddi gael ei defnyddio yn fwy fel arf yn hytrach na'i bod yn segur. Yn yr un modd, dywedodd Community Leisure UK fod angen mwy o fuddsoddiad arno.[34] Cred National Theatre Wales fod y nodau anhygoel a geir yn y Ddeddf mewn perygl heb fuddsoddiad effeithiol yn y celfyddydau.[35]

**62.** Yn ôl Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), mae cyllideb 2024-25 wedi:

> *"[g]adael arweinwyr y sector gwirfoddol mewn braw ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru a chyfeiriad teithio'r dyfodol, ac roedd y gyllideb honno, yn ein barn ni, yn anghydnaws â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol."*[36]

**63.** Yn 2023, argymhellodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, yn ei adroddiad ar wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd awdurdodau lleol, y dylai Llywodraeth

---

[33] Ymateb gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25
[34] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 32 Community Leisure UK
[35] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 11 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 40
[36] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 28 CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)

Cymru adolygu effeithiolrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth sicrhau bod gwasanaethau hamdden cyhoeddus yn cael eu darparu yng Nghymru.[37] Gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad, gan ddweud nad sicrhau bod gwasanaethau hamdden cyhoeddus yn cael eu darparu yng Nghymru yw diben y Ddeddf.[38]

**64.** Galwodd sawl tyst ar Lywodraeth Cymru i chwarae rhan fwy blaenllaw yn y gwaith o hyrwyddo gwerth diwylliant a chwaraeon. Er enghraifft, dywedodd Creu Cymru y gallai godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac integreiddio amcanion diwylliannol i bolisïau cymdeithasol ac economaidd ehangach.[39] Yn yr un modd, roedd CCC yn galw am gydweithrediad gwell ar draws adrannau Llywodraeth Cymru o ran sut y gall diwylliant a'r celfyddydau gyfrannu at feysydd eraill, megis yr economi, iechyd ac addysg.[40]

**65.** Roedd tystion hefyd yn awgrymu nad yw potensial ataliol gwariant ar ddiwylliant a chwaraeon yn cael ei ddefnyddio'n ddigonol. Nododd Community Leisure UK fod cyllid drwy atal yn hytrach na gwella yn rhatach ac yn fwy costeffeithiol.[41]

**66.** Roedd CLlLC yn galw am gydnabyddiaeth genedlaethol fwy o'r rôl ataliol y mae'r sector yn ei chwarae o ran iechyd a gofal cymdeithasol, a'i gyfraniad at yr economi. Cred y bydd annog ymyriadau cynnar gyda gweithgareddau diwylliant a chwaraeon yn ddewis rhatach a gwell nag aros hyd nes bod angen ymyriadau drutach, arbenigol.[42] Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd CLlLC nad yw'r setliad ariannu presennol yn cydnabod darpariaeth chwaraeon a diwylliannol fel gwasanaeth ataliol, gan ychwanegu bod y gwasanaeth iechyd wedi cael ei ariannu i raddau mwy na llywodraeth leol yn y blynyddoedd diwethaf.[43]

[37] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Gwasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd Awdurdodau Lleol, Gorffennaf 2023
[38] Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd awdurdodau lleol
[39] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 25 Creu Cymru (Saesneg yn unig)
[40] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 35 Cyngor Celfyddydau Cymru (Saesneg yn unig)
[41] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 32 Community Leisure UK (Saesneg yn unig)
[42] Tystiolaeth ysgrifenedig, CLlLC
[43] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 29

**67.** Dywedodd Chwaraeon Cymru wrthym yr hoffai weld:

> *"cyllidebau atal iechyd yn ystyried chwaraeon a gweithgarwch corfforol fel dull o gyflawni eu canlyniadau ac alinio cyllidebau lle mae eraill mewn gwell sefyllfa i gyflwyno gweithgarwch."*[44]

**68.** Cafwyd galwadau tebyg am ddull mwy cyfannol o weithio gyda sectorau eraill sy'n dibynnu ar ddiwylliant a chwaraeon gan gyfranogwyr yn ein gweithgareddau ymgysylltu:

> *"Mae rhywbeth sylfaenol o'i le pan fo pobl eisiau defnyddio'r celfyddydau, ac yn gwybod beth yw eu gwerth, ond dydyn nhw ddim yn barod i roi pris gwirioneddol ar y gwerth hwnnw."*
>
> *"Mae symud, gweithgarwch corfforol a chwaraeon yn ddatrysiad pwysig i lawer o faterion a heriau cymdeithasol ehangach."*

**69.** Galwodd National Theatre Wales am edrych ar y celfyddydau yn y tymor hwy a sut y gall hynny ryddhau a lleihau pwysau ar wasanaethau eraill yn y dyfodol. O ran y celfyddydau, nododd y canlynol:

> *"it's such a vital part of the nation's cultural identity, it brings communities together, it can support the health service by providing vital interventions, it allows our young people to become more adaptable, capable learners."*[45]

**70.** Yn ôl Cymdeithas Chwaraeon Cymru, am fuddsoddiad ychwanegol cymharol fach, byddai chwaraeon a hamdden yn gallu cyflawni llawer mwy o ran amcanion ehangach Cymru.[46] Honnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hefyd fod costau ymyriadau o'r fath yn gymharol fach.[47]

**71.** O ran buddsoddiadau mewn ymyrraeth ataliol benodol, galwodd Cyngor Gwynedd am sefydlu Rhaglen Atgyfeirio i Ymarfer ychwanegol ar gyfer cyflyrau nad ydynt yn rhai cronig, gan ychwanegu y gall leihau'r galw ar y sector iechyd wrth wneud cyfleusterau hamdden yn fwy hunangynhaliol. Galwodd hefyd am broses resymol o fewn amodau a thelerau'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio

[44] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 41 Chwaraeon Cymru
[45] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 11 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 37
[46] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 46 Cymdeithas Chwaraeon Cymru (Saesneg yn unig)
[47] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 26 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Saesneg yn unig)

Cleifion i Wneud Ymarfer Corff i adolygu ffioedd defnyddwyr fel cyfraniad tuag at gostau darparu.[48]

**72.** Yn ôl Cyngor Conwy mae'r grant ar gyfer y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff wedi aros yr un fath, ond mae ei gostau wedi codi:

> *"So, we are able to deal with fewer people now than we were when the scheme was first put in place, despite the fact that, really, there's so much evidence about how successful it's been, and obviously that preventative work is very likely to be much cheaper than the further medicalisation further down the road."*[49]

**73.** Dywedodd y Cyngor Llyfrau nad yw'n cael ei ddeall yn aml y cyfraniad uniongyrchol y gall y diwydiant cyhoeddi ei wneud i'r sectorau iechyd ac addysg.[50]

**74.** Dywedodd Nofio Cymru wrthym am gronfa ar y cyd cyn COVID o £5 miliwn rhwng chwaraeon ac iechyd, gan ychwanegu ei fod yn llwyddiant gwirioneddol, ond na fu dim byd ers hynny.[51]

**75.** Yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2024-25, argymhellodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y:

> *"Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno, ar draws ei holl adrannau, gategori 'ataliol' o wariant yng nghyllidebau'r dyfodol, gan symud tuag at olwg cyllidebu tymor hwy er mwyn helpu i gynyddu a diogelu iechyd y boblogaeth."*[52]

**76.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, gan ddweud y canlynol:

> *"Yn unol â'n dyheadau mwy hirdymor, rydym wedi ymrwymo o hyd i wella sut rydym yn ymgorffori ac yn dangos gwaith ataliol, a byddwn yn ystyried pa newidiadau eraill rydym yn eu gwneud*

---

[48] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 20 Cyngor Gwynedd
[49] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 111
[50] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 11 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 214
[51] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 302
[52] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, Chwefror 2024

*fel rhan o'n hadolygiad o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol a'r gwaith ehangach ar Gynllun Gwella'r Gyllideb. Drwy Gynllun Gwella'r Gyllideb byddwn yn amlinellu, ar yr adeg briodol, diweddariadau i'n dull o ymgorffori gwaith ataliol yn ein proses gyllidebu.*

*Fel rydym wedi'i amlinellu, mae hwn yn faes gwaith cymhleth a mwy hirdymor. Nid yw atal yn ymwneud â chwantwm cyllid yn unig – mae'n ymwneud â sut mae cyllid yn cael ei wario hefyd. Mae diffinio canlyniadau gwariant o safbwynt atal yn gymhleth, yn enwedig os yw gwariant yn fuddiol i sawl maes, a allai olygu bod sawl math o weithgarwch atal gwahanol yn digwydd mewn un buddsoddiad."*[53]

**77.** Yn 2023, argymhellodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, yn ei adroddiad ar wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd awdurdodau lleol, y dylai Llywodraeth Cymru gymryd pob cam rhesymol i ddatblygu cysylltiadau cryfach rhwng gwasanaethau hamdden cyhoeddus a gwasanaethau iechyd, gan gynnwys datblygu fframwaith polisi newydd ar gyfer hamdden cyhoeddus, sy'n cysylltu'n agos â gwasanaethau iechyd a lles. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad, gan ddweud ei bod yn "cydnabod y rôl hanfodol y mae gwasanaethau hamdden cyhoeddus yn ei chwarae o ran cefnogi iechyd a lles y genedl."[54]

**78.** Dywedodd y Gweinidog wrthym ei fod yn credu'n fawr yn ei bortffolio a'r holl bethau y gall eu cynnig o ran atal neu gefnogi iechyd. Dywedodd ei fod yn credu y dylid ceisio gwneud mwy lle bo'n bosibl.[55]

## Proses y gyllideb

**79.** Awgrymodd tystion y gellid gwella eu sefyllfa, drwy newidiadau i broses gyllidebol Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chynyddu'r cyllid gan Lywodraeth Cymru.

[53] Llywodraeth Cymru, Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r adroddiad gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r enw Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, 1 Mawrth 2024
[54] gen-ld16029-w.pdf
[55] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 165

**80.** Galwodd nifer o dystion, gan gynnwys Community Leisure UK, CGGC, CCC, y Comisiwn, Hoci Cymru, Chwaraeon Anabledd Cymru, StreetGames, Chwaraeon Cymru a Chymdeithas Chwaraeon Cymru, am setliadau cyllid tymor hwy a fyddai'n cwmpasu mwy nag un flwyddyn ariannol. Yn ôl CCC:

> *"Annual budget settlements do not allow us to effectively plan over the longer term, which is a key principle under the Wellbeing of Future Generations Act."*[56]

**81.** Disgrifiodd CLlLC y diffyg cyllid tymor canolig fel her.[57] Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru nad yw'n caniatáu ar gyfer cynllunio busnes priodol a sicrwydd swydd,[58] a dywedodd Cyngor Gwynedd wrthym y byddai cael ymyriadau cyllidol dros gyfnod hwy yn hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaethau.[59]

**82.** Galwodd tystion, gan gynnwys y Llyfrgell, am ddigon o amser i allu paratoi ar gyfer toriadau. Eglurodd Amgueddfa Cymru pa mor gyflym y bu rhaid iddi leihau ei gwariant oherwydd bod cyn lleied o amser rhwng cyhoeddi'r toriadau a'r angen i'w rhoi ar waith.[60]

**83.** Roedd galwadau hefyd am fwy o hyblygrwydd o ran sut mae cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei wario. Er enghraifft, eglurodd Amgueddfa Cymru nad yw wedi gallu gwario cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, oherwydd cyfyngiadau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar sut y gallai ddefnyddio'r cyllid hwnnw.[61] Pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer y sector diwylliant ym mis Gorffennaf 2024, gan gynnwys £1.3 miliwn i Amgueddfa Cymru, bu'n rhaid i'r Amgueddfa ddatblygu achos Cyfiawnhad Busnes i gael gafael ar yr arian.[62]

---

[56] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 35 Cyngor Celfyddydau Cymru (Saesneg yn unig)
[57] Tystiolaeth ysgrifenedig, CLlLC
[58] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 46 Cymdeithas Chwaraeon Cymru (Saesneg yn unig)
[59] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 20 Cyngor Gwynedd
[60] Llythyr gan Amgueddfa Cymru yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon, 18 Hydref 2024
[61] Llythyr gan Amgueddfa Cymru yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon, 18 Hydref 2024
[62] Llythyr gan Amgueddfa Cymru yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon, 18 Hydref 2024

**84.** Eglurodd yr Amgueddfa fod dealltwriaeth o sut y gellir gwario cyllid cymorth grant, ond pan roddir cyllid drwy brosiectau, rhaid gwneud achos busnes a gall hynny fod yn broses hir iawn[63]. Yn ôl yr Amgueddfa:

> *"it's not just a lot of work for us, it's a huge amount of work for Welsh Government officials as well. Our business justification cases can bounce back and forth and back and forth over a period of months, just because the Welsh Government perspective of what might be needed might be slightly different from my team's understanding of what might be needed, and you have to find a middle ground, et cetera. So it can be a very lengthy process to be able to secure capital funding. That can take quite a lot of the year, and then you're left with very little of the year to spend it.*
>
> *For me, the most efficient way that would enable us to deliver the maintenance programme we need in a way that would benefit both the way we work and the way that the Government could work would be to incorporate those project allocations into our capital grant in aid. We would be fully accountable for them, so it wouldn't be loosely spending money in some way, but it would mean we could start the year being able to actually work on those projects rather than taking months before we can get started."*[64]

**85.** Gwnaethom drafod gyda'r Gweinidog y broses y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Amgueddfa ei dilyn i gael gafael ar y cyllid cyfalaf hwn. Dywedodd fod ei swyddogion wedi gweithio ochr yn ochr ac wedi cefnogi'r Amgueddfa drwy'r broses achos busnes.[65] Cred mai dyna'r peth iawn i'w wneud, ac ni fydd yn newid ei farn ar hynny. Fodd bynnag, mae'n barod i gael ei berswadio fel arall os yw'r Pwyllgor am wneud argymhelliad nad oedd angen achos busnes.[66]

---

[63] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 11 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 13
[64] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 11 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 14-15
[65] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 138
[66] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 140

**86.** Gofynnodd y Llyfrgell am gael cario mwy o arian grant ymlaen o un flwyddyn ariannol i'r llall:

> *"gan fod arian annisgwyl yn cael ei dderbyn yn hwyr yn y flwyddyn ariannol yn sgil tanwariant mewn meysydd eraill neu oherwydd amgylchiadau penodol, ac fe fyddai cynnig cario drosodd (gyda chynllun busnes cadarn) yn galluogi cynllunio'r gwariant yn y ffordd fwyaf effeithiol posib i gael gwerth am arian."*[67]

**87.** Yn ôl Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru, hyd yn oed pan fydd prosiectau'n cael eu derbyn yn dybiannol dros fwy nag un flwyddyn ariannol, nid oes sicrwydd y bydd arian ar gael y tu hwnt i'r flwyddyn gyntaf.[68] Eglurodd CCC y byddai gallu cario arian drosodd yn rhoi cyfle gwell iddo fod yn strategol yn y ffordd y caiff arian ei wario.[69]

**88.** Er ei fod yn croesawu unrhyw gyllid ychwanegol, nododd tystion y problemau y mae cael cyllid annisgwyl hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol yn eu hachosi. Galwodd CCC y cyllid ychwanegol a gafodd yn "sticking plaster", gan ychwanegu nad yw grantiau o'r fath yn ateb y galw hirdymor i ddatrys rhai o'r problemau y mae diffyg cyllid yn eu hachosi.[70]

## Gwarchodaeth statudol

**89.** Galwodd rhai tystion, er enghraifft CCC, Canolfan Gelfyddydau Chapter a Nofio Cymru am warchodaeth statudol i'w sectorau. Yn ôl CCC:

> *"statutory responsibility would mean that there would have to be far more scrutiny and discussion in terms of local authorities' spending on the arts and arts provision, and it would mean a level of protection in the sense that things couldn't be sort of cut as the first place to cut."*[71]

---

[67] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 52 Llyfrgell Genedlaethol Cymru
[68] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 42 Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru (Saesneg yn unig)
[69] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 268
[70] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 176
[71] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 256

**90.** Galwodd Nofio Cymru ar Lywodraeth Cymru i roi statws gwarchodedig i gyfleusterau dyfrol, yn debyg i sut mae llyfrgelloedd yn cael eu trin, gan ychwanegu y byddai'r statws hwn yn cydnabod pyllau nofio a chanolfannau hamdden fel asedau cymunedol hanfodol, gan eu diogelu rhag cau oherwydd pwysau ariannol.[72]

**91.** Dywedodd y Cyngor Llyfrau ei fod yn cefnogi gwarchodaeth statudol 'mewn egwyddor' ond nododd fod miloedd o lyfrgelloedd wedi cau dros y degawd diwethaf er eu bod yn wasanaeth statudol.[73]

**92.** Galwodd y Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau am warchodaeth statudol i gasgliadau amgueddfeydd, gan nodi bod gan Gymru gyfle unigryw i osod cynsail ar gyfer gweddill y DU.[74]

**93.** Tynnodd tystion llywodraeth leol sylw at y pwysau cyllid ar wasanaethau anstatudol. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Conwy fod popeth nad yw'n statudol yn agored i niwed ar hyn o bryd.[75] Fodd bynnag, dywedodd Huw Thomas, a oedd yn cynrychioli CLlLC, nad oedd o blaid gwarchodaeth statudol i wasanaethau diwylliant a chwaraeon heb y cyllid i gyd-fynd â hynny.[76]

**94.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y cwestiwn ynghylch rhoi gwarchodaeth statudol i wasanaethau chwaraeon a diwylliant yn un diddorol, gan ychwanegu nad yw yn y sefyllfa ar hyn o bryd i argymell y ffordd honno o weithredu. Dywedodd y byddai angen atodi cyllid i unrhyw warchodaeth statudol. Fel arall byddai'n anodd i awdurdodau lleol wneud mwy o bethau, a byddai gofyn iddynt wneud hynny'n arbennig o annheg.[77]

## Ein barn ni

**95.** Oherwydd toriadau i ddiwylliant a chwaraeon yng nghyllideb 2024-25, mae'r sectorau hyn i gyd wedi gweld gostyngiad sylweddol mewn termau real yn eu

---

[72] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 37 Nofio Cymru (Saesneg yn unig)
[73] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 11 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 206
[74] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 42 Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru (Saesneg yn unig)
[75] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 18
[76] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 163
[77] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 162

cyllid refeniw dros y degawd diwethaf. Mae tangyllido hanesyddol yn y sectorau hyn gan Lywodraeth Cymru yn golygu nad oeddent yn gallu ymateb i doriadau mor sylweddol.

**96.** Nodwn fod cymhariaeth ryngwladol yn dangos bod cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer diwylliant a chwaraeon yn is nag yn y rhan fwyaf o wledydd Ewrop. Credwn fod hyn yn tynnu sylw at y diffyg strategaeth, gweledigaeth a chyfeiriad gan Lywodraeth Cymru o ran diwylliant a chwaraeon, ac y dylid cywiro hyn.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid ar gyfer diwylliant a chwaraeon hyd nes ei fod yn gymaradwy (o ran gwariant y pen) â chyllid gwledydd tebyg.

**97.** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn fynegiant clir o fwriad Llywodraeth Cymru i gynllunio gwasanaethau ar gyfer y tymor hwy, ond mae'r tangyllido cyson ar ddiwylliant a chwaraeon yn dangos nad yw wedi rhoi'r bwriad hwn ar waith eto. O ganlyniad i hyn, "Cymru â diwylliant bywiog" yw'r nod lleiaf datblygedig hyd yma, er y dylai mynediad at chwaraeon a diwylliant fod yn gynhenid i fywyd o ansawdd uchel.

**98.** Mae angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i wireddu dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gwyddom ei bod yn llawer rhatach buddsoddi mewn gofal ataliol na thrin afiechyd, ond nid yw gallu diwylliant a chwaraeon i wella llesiant corfforol a meddyliol wedi'i werthfawrogi'n ddigonol gan Lywodraeth Cymru. Mae angen i Lywodraeth Cymru chwarae rhan fwy blaenllaw yn y gwaith o hyrwyddo gwerth diwylliant a chwaraeon wrth sicrhau canlyniadau iechyd. Felly, rydym yn cefnogi argymhelliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei adroddiad ar gyllideb ddrafft 2024-25 y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno, ar draws ei holl adrannau, gategori 'ataliol' o wariant yng nghyllidebau'r dyfodol, gan symud tuag at olwg cyllidebu tymor hwy er mwyn helpu i gynyddu a diogelu iechyd y boblogaeth. Byddai categori ataliol o wariant yn y cyllidebau diwylliant a chwaraeon yn helpu i gydnabod a chyllido'r sectorau hyn yn briodol am y gwerth sydd ganddynt y tu hwnt i'w gwerth cynhenid.

**99.** Mae'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff yn enghraifft wych o sut y gall gweithgarwch corfforol gael effeithiau cadarnhaol ar ganlyniadau iechyd. O ystyried ei lwyddiant, roeddem yn siomedig o glywed bod awdurdodau lleol yn gallu cynnig sesiynau i lai o bobl nawr na phan gyflwynwyd y cynllun oherwydd costau uwch. Gwyddom fod gwaith ataliol yn debygol o fod yn llawer rhatach nag ymyriadau meddygol ymhellach i lawr y ffordd. Felly, gofynnwn i Lywodraeth Cymru ailedrych ar y ffioedd sy'n gysylltiedig â'r cynllun.

**100.** Nodwn argymhellodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, yn ei adroddiad yn 2023 ar wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd awdurdodau lleol, y dylai Llywodraeth Cymru gymryd pob cam rhesymol i ddatblygu cysylltiadau cryfach rhwng gwasanaethau hamdden cyhoeddus a gwasanaethau iechyd, gan gynnwys datblygu fframwaith polisi newydd ar gyfer hamdden cyhoeddus, sy'n cysylltu'n agos â gwasanaethau iechyd a lles. Nodwn fod hyn wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru a byddem yn ddiolchgar am ddiweddariad ar y cynnydd o ran gweithredu'r argymhelliad.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno, ar draws ei holl adrannau, gategori 'ataliol' o wariant yng nghyllidebau'r dyfodol, gan symud tuag at olwg cyllidebu tymor hwy er mwyn helpu i gynyddu a diogelu iechyd y boblogaeth. Byddai hyn yn helpu i gydnabod a chyllido diwylliant a chwaraeon yn briodol am y gwerth sydd ganddynt y tu hwnt i'w gwerth cynhenid.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ailedrych ar y ffioedd sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff.

**Casgliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar weithredu argymhelliad 6 yn adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd awdurdodau lleol.

**101.** Mae sefydliadau wedi cael gostyngiad amrywiol yng nghyllid awdurdodau lleol. Clywsom fod y diffyg gwarchodaeth statudol i wasanaethau diwylliant a chwaraeon yn eu gwneud yn agored i doriadau. Ond nid yw gwarchodaeth statudol ar ei phen ei hun, heb gyllid ychwanegol, yn ddigon i warchod y sectorau hyn. Nid ydym yn argyhoeddedig bod angen deddfwriaeth newydd. Yn lle hynny, fel y trafodwyd uchod, hoffem weld Llywodraeth Cymru yn rhoi'r gwerth a'r gydnabyddiaeth y maent yn eu haeddu i'r gwasanaethau anstatudol hyn. I wneud hynny, mae angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth drawsadrannol gydweithredol ar gyfer cyllido diwylliant a chwaraeon, sy'n cydnabod eu bod yn hanfodol i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**102.** Roedd gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed am gronfa ar y cyd cyn COVID o £5 miliwn rhwng chwaraeon ac iechyd. Hoffem weld cronfa o'r fath yn cael ei hatgyfodi a Llywodraeth Cymru yn symud i ffwrdd oddi wrth ddull seilo o gyllidebu. Yn y dyfodol, wrth ystyried y gyllideb ar gyfer diwylliant a chwaraeon, dylai Llywodraeth Cymru ystyried y gwahaniaeth a'r arbedion y gall buddsoddi yn y sectorau hyn eu gwneud i feysydd eraill, yn enwedig iechyd ac addysg. Mae'r gostyngiad systematig mewn cyllid dros y degawd diwethaf wedi effeithio ar allu

sefydliadau i allu cyfrannu'n ehangach at agendâu iechyd ac addysg, a chyfrannu at economi Cymru.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth drawsadrannol gydweithredol i gyllido diwylliant a chwaraeon, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau cyllid yn cael eu cydgysylltu â blaenoriaethau ehangach y llywodraeth, yn enwedig iechyd ac addysg. Dylai'r strategaeth hon gydnabod chwaraeon a diwylliant fel cyfryngau allweddol i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**103.** Clywsom gan dystion hefyd fod ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru helpu diwylliant a chwaraeon, drwy ddarparu mwy o hyblygrwydd o ran y ffordd y mae'n dyrannu'r cyllid hwn, yn ogystal â darparu mwy o arian. Dylid trin a chyllido'r rhai sy'n derbyn cyllid fel partneriaid y gellir ymddiried ynddynt, mewn perthynas fwy dwyochrog a chydweithredol. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n rhagweithiol i ddileu rhwystrau sy'n ei gwneud yn fwy anodd i sefydliadau wario'r arian a roddir iddynt, yn enwedig yn y cyfnod arbennig o anodd hwn.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru rymuso sefydliadau diwylliant a chwaraeon drwy eu galluogi i wario cyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn unol â'u prosesau llywodraethu eu hunain, a heb fod angen awdurdodiad ychwanegol diangen gan Lywodraeth Cymru. Wrth wneud hynny, dylai ystyried sut y gall gael gwared ar rwystrau megis gofynion achos busnes, ac yn lle hynny darparu mwy o gyllid fel cyfraniadau ychwanegol at eu cymorth grant.

# 2. Cyflwr diwylliant a chwaraeon

## Cyfranogiad a phresenoldeb

**104.** Mae dangosyddion y celfyddydau yn Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod pob math o bresenoldeb diwylliannol wedi gostwng o'i gymharu â'r lefelau cyn y pandemig.[78] Tynnodd tystion sylw at y ffaith bod toriadau 2024-25 yn dod ar adeg pan fo incwm yn is oherwydd bod llai o bobl yn mynychu, pan fo chwyddiant uchel dros y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at gostau uwch, a hynny ar ôl lefelau cyllido is nag erioed. Gan hynny, nid oes ganddynt fawr ddim capasiti, os o gwbl, i amsugno'r toriadau mwyaf diweddar.

**105.** Dywedodd National Theatre Wales wrthym na ellir disgwyl i gynulleidfaoedd dalu am doriadau a gwasgfeydd sy'n digwydd.[79] Dywedodd CCC fod cynulleidfaoedd hefyd yn teimlo effeithiau cynnydd yn eu costau byw eu hunain.

> *"The cuts have had a significant impact across the venues sector –which is still feeling the impact of the pandemic and most have not returned to pre-pandemic levels of attendance. It was struggling before, and this has exacerbated a fragile situation. Added to this the associated high cost of catering and refreshments product is adding to the overall deficit."*[80]

**106.** Nododd Canolfan Dreftadaeth Doc Penfro[81] a Gwasanaeth Amgueddfeydd Merthyr Tudful[82] fod yr argyfwng costau byw wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr, gan roi straen pellach ar adnoddau ariannol y Ganolfan. Yn ogystal â theimlo'r argyfwng costau byw, dywedodd Chapter wrthym fod pobl yn treulio mwy o amser gartref neu fod eu harferion wedi newid ers COVID.[83]

**107.** Clywsom, er bod cerddoriaeth a theatr fyw wedi gweld rhywfaint o gynnydd yn lefelau'r gynulleidfa, fod meysydd eraill fel sinema yn dal i ddirywio'n sylweddol.[84] Eglurodd CCC fod pobl wedi dod yn fwy anodd eu plesio o ran faint maent yn ei wario a beth maent yn ei wario – maent eisiau gwybod yn union beth

[78] Llywodraeth Cymru, prif ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru: Ebrill 2022 i Fawrth 2023
[79] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 11 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 17
[80] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 35 Cyngor Celfyddydau Cymru (Saesneg yn unig)
[81] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 09 Timothy Payne (Saesneg yn unig)
[82] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 19 Gwasanaeth Amgueddfeydd Merthyr Tudful
[83] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 11 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 115
[84] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 35 Cyngor Celfyddydau Cymru (Saesneg yn unig)

maent am ei gael am eu harian a sicrwydd y bydd yn werth am arian. O ganlyniad i hyn, clywsom fod lleoliadau'n dod yn "fwy diogel" o ran natur eu gwaith ac, yn ei dro, mae llai o gyfleoedd i awduron newydd a gwaith newydd.[85]

**108.** Dywedodd Ffederasiwn yr Amgueddfeydd ac Orielau fod diffyg enfawr o hyd, sef 69 y cant o'r lefelau cyn y pandemig o ran cynulleidfaoedd amgueddfeydd. Nodwyd eu bod yn annhebygol o wella os bydd capasiti a mynediad yn parhau i gael eu lleihau oherwydd bod ailadeiladu ymddiriedaeth a pherthnasedd cymunedol yn gofyn am adnoddau.[86]

## Adeiladau a chyfleusterau

**109.** Tynnodd nifer o dystion sylw at effaith toriadau cyllid ar gynnal a chadw adeiladau a chyfleusterau o fewn y sectorau chwaraeon a diwylliant, a bod rhai mewn perygl o gau. Yn ôl Creu Cymru:

> *"Permanent closure of venues will have long-lasting impacts on the community and cultural landscape, reducing access to cultural experiences and spaces for artistic expression."*[87]

**110.** Nododd Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Met Caerdydd y bydd cau lleoliadau yn cael effaith sylweddol ar iechyd cymdeithasol, corfforol a meddyliol cymunedau.[88] Clywsom gan yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth fod 16 o leoliadau cerddoriaeth mewn perygl o gau ac y byddai hyn yn drychineb i'r sîn gerddoriaeth ar lawr gwlad yng Nghymru, gan ychwanegu bod llawer o leoliadau yn darparu gweithgareddau a buddion ychwanegol i'w cymunedau lleol.[89] Dywedodd Cyngor Conwy ei fod yn gweithio i ddod o hyd i ffyrdd o gadw lleiafswm darpariaeth o wasanaethau ar agor, gan wybod os bydd yn cau cyfleusterau ei bod bron yn sicr na fyddant yn ailagor.[90]

**111.** Disgrifiodd Community Leisure UK stoc hamdden a diwylliant cyhoeddus sy'n heneiddio ac a fydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn fuan.[91] Dywedodd CLlLC wrthym nad yw'r grant cyfalaf y mae cynghorau yn ei gael gan

---

[85] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 236
[86] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 42 Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru (Saesneg yn unig)
[87] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 25 Creu Cymru (Saesneg yn unig)
[88] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 05 Prifysgol Met Caerdydd – Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd (Saesneg yn unig)
[89] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 29 Yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth (Saesneg yn unig)
[90] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 26 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Saesneg yn unig)
[91] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 32 Community Leisure UK (Saesneg yn unig)

Lywodraeth Cymru bellach yn caniatáu iddi gadw i fyny â'r costau cynnal a chadw.[92] Dywedodd Cyngor Sir Ynys Môn nad yw adeiladau'n addas i'r diben a'i fod yn dod yn fwy dibynadwy ar gyllid grant allanol:

> *"however due to the high level of applications for various sources of funding it has become increasingly more difficult to successfully apply for funding."*[93]

**112.** Galwodd Community Leisure UK am gynllun clir ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn awdurdodau lleol a'u partneriaid i gynorthwyo gyda chynaliadwyedd ac effeithlonrwydd adeiladau.[94]

**113.** Galwodd Canolfan Ffilm Cymru hefyd am fwy o fuddsoddiad cyfalaf, gan nodi bod lleoliadau'n cael trafferth cyllido newidiadau mewn technoleg sinema ddigidol a phrynu cit ar gyfer dangosiadau cymunedol.[95]

**114.** Dywedodd un cyfranogwr yn ein gweithgareddau ymgysylltu fod angen cyllid cyhoeddus ar gyfer cynnal a chadw'r adeiladau a thalu'r biliau, gan na allant edrych at ffynonellau eraill am gymorth yn y maes hwn.

**115.** Nododd Cymdeithas Chwaraeon Cymru, yn dilyn gostyngiadau mewn gwariant gan awdurdodau lleol ar chwaraeon a hamdden, fod newidiadau i batrymau cynnal a chadw cyfleusterau chwaraeon wedi creu ôl-groniadau difrifol. Er enghraifft, tynnodd sylw at adroddiadau am faterion yn ymwneud â meysydd glaswellt a blociau toiledau a chawodydd cysylltiedig. Roedd Cymdeithas Chwaraeon Cymru yn galw am gynllun i fynd i'r afael â'r ôl-groniadau yn y gwaith cynnal a chadw sy'n weddill, gan gynnwys asesiad realistig o gost cyfalaf ailwampio ac adnewyddu'r cyfleusterau chwaraeon cyhoeddus ledled Cymru.[96]

**116.** Dywedodd Clwb Hoci Merched Northop Hall fod yn rhaid iddynt chwarae gemau cartref yn Lloegr oherwydd diffyg cyllid i gefnogi eu cae cartref sy'n dueddol i wynebu llifogydd.[97] Disgrifiodd Clwb Hoci Gwent eu cyfleusterau fel rhai sy'n is na'r safon o'u cymharu â'r cyfleusterau a ddefnyddir gan glybiau eraill yng ngorllewin Lloegr.[98]

---

[92] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 68
[93] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 17 Cyngor Sir Ynys Môn (Saesneg yn unig)
[94] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 32 Community Leisure UK (Saesneg yn unig)
[95] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 33 Canolfan Ffilm Cymru (Saesneg yn unig)
[96] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 46 Cymdeithas Chwaraeon Cymru (Saesneg yn unig)
[97] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 27 Clwb Hoci Merched Northhop Hall (Saesneg yn unig)
[98] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 38 Clwb Hoci Gwent (Saesneg yn unig)

**117.** Dywedodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru y canlynol:

> *"Cyfleusterau gwael yw'r brif broblem sy'n effeithio ar chwaraewyr a chlybiau, a chaeau yn dirywio wrth i amodau tywydd waethygu, gyda dros 40% o gemau yn cael eu gohirio oherwydd y tywydd yn ystod rhai o fisoedd y gaeaf. Ar hyn o bryd ledled Cymru, dim ond 21% o gaeau sydd wedi eu graddio o safon 'dda'; dim ond 23% o gyfleusterau newid sydd wedi eu graddio o safon 'dda' a dywed 54% e[i] bod yn anodd cyrchu caeau artiffisial."*[99]

**118.** Aeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru ymlaen i ddweud ei bod am allu buddsoddi o leiaf £10 miliwn y flwyddyn i wella cyfleusterau mewn cymunedau ledled Cymru er mwyn eu codi i safon. Nodwyd bod cymorth Llywodraeth Cymru yn elfen allweddol i gyflawni'r uchelgais honno ac y bydd unrhyw doriadau mewn cyllid yn amharu ar ei gallu i gyflawni. Galwodd Hoci Cymru hefyd am gyllid cyfalaf ar gyfer gwella ac uwchraddio cyfleusterau chwaraeon yn benodol.[100]

**119.** Dywedodd Timothy Payne wrthym nad yw Canolfan Dreftadaeth Doc Penfro yn gallu fforddio addurniadau ac atgyweiriadau allanol angenrheidiol oherwydd arian cyfyngedig. Nododd fod hyn yn achosi dirywiad, a allai arwain at gostau pellach a phroblemau diogelwch posibl. Galwodd ar Lywodraeth Cymru i ddarparu grantiau neu gymorthdaliadau wedi'u hanelu'n benodol at gynnal a chadw adeiladau hanesyddol.[101] Dywedodd Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru ei bod yn ymddangos bod atgyweiriadau adeiladau sy'n dibynnu ar awdurdodau lleol i'w gweithredu yn cael eu hanwybyddu.[102]

**120.** Tynnodd sefydliadau chwaraeon a gymerodd ran yn ein gweithgareddau ymgysylltu sylw at gostau cynyddol llogi cyfleusterau, gyda rhai ohonynt wedi dyblu. Disgrifiodd Clwb Hoci Athletau Caerfyrddin gostau llogi caeau fel rhai aruthrol, gan olygu bod yn rhaid iddynt godi ffioedd i wrthbwyso'r costau.[103]

**121.** Soniodd rhai o'r sefydliadau chwaraeon hyn hefyd am fuddsoddiad diweddar mewn ysgolion heb fewnbwn gan y sector chwaraeon. Ystyriwyd bod datblygiadau o'r fath yn gyfle a gollwyd i ganolbwyntio ar anghenion yr ysgol, yn

[99] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 45 Cymdeithas Bêl-droed Cymru
[100] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 51 Hoci Cymru (Saesneg yn unig)
[101] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 09 Timothy Payne (Saesneg yn unig)
[102] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 42 Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru (Saesneg yn unig)
[103] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 16 Clwb Hoci Athletau Caerfyrddin (Saesneg yn unig)

ogystal â'r gymuned leol ac ystyried cyfleoedd cynhwysol gydag ystod o gyfleusterau sy'n cefnogi gweithgarwch corfforol i bawb.

> *"Ar y naill law yn y gymuned, mae gennym gyfleusterau hamdden sy'n hen iawn ac wedi dadfeilio, ac mae gan yr ysgol i lawr y ffordd gyfleusterau newydd sbon sydd ddim yn addas at y diben, a heb ystyried yr hyn sydd ei angen mewn gwirionedd ar y gymuned leol."*

**122.** Dywedodd y Gymdeithas Tennis Lawnt a Tennis Cymru y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector chwaraeon i sicrhau bod cyfleusterau chwaraeon newydd mewn ysgolion yn darparu ar gyfer y galw am gyfleusterau chwaraeon penodol yn yr ardaloedd hynny. Roeddent hefyd yn galw ar ffrydiau cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion i alluogi'r gymuned leol i wneud defnydd o weithgareddau chwaraeon ysgol presennol y tu allan i oriau ysgol.[104] Galwodd Athletau Cymru hefyd am i gyfleusterau chwaraeon ysgol fod ar gael ar gyfer darpariaeth chwaraeon a gweithgarwch corfforol lleol ar benwythnosau.[105]

**123.** Dywedodd Hoci Cymru y dylid gweithio'n agosach yn ystod y cyfnod dylunio i sicrhau bod cyfleusterau newydd yn addas i'r diben.[106] Galwodd Clwb Hoci Gwent am ystyried yr effaith ar bob math o chwaraeon o ran cyllid cyfleusterau er mwyn osgoi effaith andwyol ar rai chwaraeon.[107] Er bod Clwb Hoci Caerdydd a Met wedi galw ar eu hawdurdod lleol a'r llywodraeth ehangach i ddarparu cymorth i nodi partneriaethau posibl gydag ysgolion lleol i drosglwyddo asedau neu dir sydd ar gael a allai fod yn addas i leoli cyfleusterau newydd.[108]

**124.** Clywsom gan Nofio Cymru fod cyflwr cyfleusterau dyfrol yng Nghymru wedi bod yn dirywio'n gyson ers degawd a bod 30 y cant o byllau nofio mewn perygl o gau dros y degawd nesaf os na chymerir camau gan lywodraethau canolog a lleol. Dywedodd:

> *"once a facility is closed, the cost of reopening or replacing it is often prohibitive, leading to a lasting reduction in community services."*[109]

[104] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 43 Cymdeithas Tennis Lawnt a Tennis Cymru (Saesneg yn unig)
[105] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 47 Athletau Cymru (Saesneg yn unig)
[106] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 51 Hoci Cymru (Saesneg yn unig)
[107] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 38 Clwb Hoci Gwent (Saesneg yn unig)
[108] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 39 Clwb Hoci Caerdydd a Met (Saesneg yn unig)
[109] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 37 Nofio Cymru (Saesneg yn unig)

**125.** Galwodd CLlLC ar Lywodraeth Cymru i ystyried lleihau neu gael gwared ar yr ardrethi annomestig a delir ar adeiladau hamdden cynghorau.[110] Gofynnodd y Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau hefyd i amgueddfeydd gael rhyddhad uniongyrchol rhag ardrethi busnes.[111]

**126.** Dywedodd y Llyfrgell wrthym fod cyflawni prosiectau cyfalaf 20 y cant yn ddrutach na'r cyfnod cyn y pandemig, gan wneud gwariant ar fesurau datgarboneiddio yn fwy heriol:

> *"Roedd cynlluniau datgarboneiddio blaengar mewn lle i wneud y Llyfrgell yn sero net erbyn 2030, ond mae'r hinsawdd ariannol, gan gynnwys lefelau chwyddiant ac ansicrwydd am gyllid y dyfodol, wedi cynyddu risg i'r gwariant ar fesurau datgarboneiddio gan gynyddu risg i'r effaith bositif ar yr amgylchedd ac ymrwymiadau datblygu cynaliadwy."*[112]

**127.** Nododd Pedr ap Llwyd, cyn-Brif Weithredwr y Llyfrgell y canlynol:

> *"Bydd methu â chynnal arferion cadwraeth digonol neu fuddsoddi yng ngwead yr adeilad yn arwain at ddifrod hirdymor, a allai fod yn anadferadwy os na chaiff ei drin."*[113]

**128.** Nododd Cyngor Sir Ynys Môn hefyd yr her sylweddol i ganolfannau hamdden ddod yn Sero Net erbyn 2030 heb fuddsoddiad pellach.[114]

**129.** Soniodd tystion wrthym am effeithiau negyddol cynnydd mewn biliau cyfleustodau ar eu sefydliadau. Er enghraifft, dywedodd y Llyfrgell wrthym fod cost trydan a nwy wedi cynyddu 33 y cant.[115] Dywedodd un cyfranogwr y canlynol yn ein gweithgareddau ymgysylltu:

> *"Roedd twll o £85,000 yn ein cyfrifon y llynedd, dim ond oherwydd y cynnydd yn ein biliau cyfleustodau. Dyw hynny ddim yn rhywbeth y bydd pobl yn ei ariannu, dyw e ddim yn brosiect artistig… Felly, mae rhaid i ni dorri ein gweithgareddau craidd i'r byw, a gweld beth allwn*

[110] Tystiolaeth ysgrifenedig, CLlLC
[111] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 42 Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru (Saesneg yn unig)
[112] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 52 Llyfrgell Genedlaethol Cymru
[113] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 14 Pedr ap Llwyd
[114] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 17 Cyngor Sir Ynys Môn (Saesneg yn unig)
[115] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 52 Llyfrgell Genedlaethol Cymru

> *ni ei wneud bob dydd sy'n mynd i wneud arian i ni a'n cadw i fynd bob dydd."*

**130.** Galwodd Timothy Payne o Ganolfan Dreftadaeth Doc Penfro am grantiau effeithlonrwydd ynni.[116] Galwodd Chapter hefyd am gymorth gyda chyfleustodau er mwyn helpu i leihau costau ynni. Roedd yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymhellion ar gyfer cyfleoedd mwy amgylcheddol gynaliadwy, megis paneli solar, inswleiddio a ffenestri ar gyfer adeiladau hŷn.[117] Roedd CLlLC yn galw ar Lywodraeth Cymru i ostwng tariffau ynni ar gyfer sefydliadau sydd â'r prif nod o gynnal a gwella llesiant corfforol neu feddyliol pobl.[118]

**131.** Yn ystod ein sesiwn graffu gyda'r Gweinidog, eglurodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru ei fod yn gweithio'n agos gyda phrif swyddogion hamdden awdurdodau lleol i ddeall ac archwilio cyflwr a darpariaeth cyfleusterau hamdden.[119]

## Staffio

**132.** Clywsom fod y toriadau cyllid wedi arwain at golli swyddi neu leihau cyfleoedd cyflogaeth o fewn y sector. Dywedodd Creu Cymru[120] ac Equity[121] fod hyn yn arbennig o wir ar gyfer gweithwyr llawrydd. Wedi iddynt orfod arallgyfeirio yn ystod y pandemig, dywedodd y cyfranogwyr yn ein gweithgareddau ymgysylltu fod llawer o weithwyr llawrydd bellach yn wynebu rhagor o heriau wrth i sefydliadau diwylliannol frwydro i gynnig cyfleoedd a chontractau iddynt. Mynegodd sefydliadau diwylliannol mewn ardaloedd gwledig yn arbennig eu pryderon ynghylch effaith methu â chefnogi gweithwyr llawrydd sy'n gorfod naill ai ystyried newid gyrfa neu symud i ardaloedd mwy trefol i chwilio am gyfleoedd gwaith. Dywedodd un cyfranogwr y canlynol:

> *"Mae gennym artistiaid o fri rhyngwladol sy'n gofyn a allwn ni dalu eu hanfoneb heddiw am nad oes ganddyn nhw ddigon o arian i dalu'r rhent. Mae'n digwydd yn rheolaidd. Nid rhywbeth sy'n digwydd*

[116] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 09 Timothy Payne (Saesneg yn unig)
[117] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 21 Chapter Caerdydd Cyf (Saesneg yn unig)
[118] Tystiolaeth ysgrifenedig, CLlLC
[119] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 51
[120] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 25 Creu Cymru (Saesneg yn unig)
[121] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 03 Equity (Saesneg yn unig)

> *unwaith mohono, a dyw e ddim yn rhywbeth y dylen ni fod yn falch ohono."*

**133.** Soniodd sawl tyst am y diswyddiadau y bu rhaid iddynt eu gwneud, er mwyn darparu ar gyfer y gostyngiad mewn cyllid, a'i effaith ar gapasiti i ddarparu gyflawni prosiectau.

**134.** Dywedodd y Llyfrgell wrthym mai "costau staffio yw'r eitem unigol uchaf". Ymatebodd i'r toriad yn y gyllideb drwy gynnig llwybr ymadael gwirfoddol a thrwy rewi recriwtio i swyddi gweigion.[122] Arweiniodd hyn at golli deg y cant o'r gweithlu.[123] Penderfynodd y Comisiwn hefyd rewi swyddi oni bai bod y rôl yn hollol sylfaenol i gyflawni.[124]

**135.** Nododd llawer o'r sefydliadau a gymerodd ran yn ein gweithgareddau ymgysylltu eu hanallu i gynnig cyflogau uwch i'w staff; ac effaith andwyol hynny ar y gweithlu. Tynnodd sefydliadau sylw hefyd at ansicrwydd contractau o un flwyddyn i'r llall, a'r effaith ar gadw staff. Clywsom gan CCC fod artistiaid yn gadael y sector i ymgymryd â rolau nad ydynt yn greadigol sy'n cynnig mwy o sicrwydd ariannol.[125] Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru fod cyfraddau cyflog yn anffafriol o'u cymharu â sectorau eraill a bod llawer yn nodi anawsterau sylweddol wrth recriwtio.[126] Nododd y Gymdeithas Tennis Lawnt a Tennis Cymru duedd gynyddol o unigolion o fewn y sector yn symud i sefydliadau chwaraeon yn Lloegr neu'n gadael byd chwaraeon yn gyfan gwbl.[127]

**136.** Soniodd pob un o'r sefydliadau a gymerodd ran yn ein gweithgareddau ymgysylltu am ymrwymiad y staff a'u hangerdd i wasanaethu eu cymunedau a gwarchod eu camp neu eu celfyddyd. Fodd bynnag, nodwyd bod morâl staff yn is nag erioed, a bod angen mynd i'r afael â llesiant staff yn fwy nag erioed. Nododd y Comisiwn fod staff bellach gweithio dwy swydd, sy'n golygu eu bod yn gweithredu ar lefelau uchel o straen.[128]

---

[122] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 52 Llyfrgell Genedlaethol Cymru
[123] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 19
[124] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 202
[125] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 35 Cyngor Celfyddydau Cymru (Saesneg yn unig)
[126] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 46 Cymdeithas Chwaraeon Cymru (Saesneg yn unig)
[127] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 43 Cymdeithas Tennis Lawnt a Tennis Cymru (Saesneg yn unig)
[128] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 206

**137.** Dywedodd Beicio Cymru wrthym fod diswyddiadau wedi peryglu ei allu i gynnal gweithrediadau presennol a mynd ar drywydd mentrau newydd.[129]

**138.** Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu ffigurau cyflogaeth ar draws ei chyrff hyd braich diwylliant a chwaraeon yn 2010 a 2024. Mae'r rhain yn dangos gostyngiad yn nifer y staff parhaol ar draws yr holl gyrff diwylliant, gyda chynnydd bach yn Chwaraeon Cymru.

| Cyrff hyd braich | Presennol | 2010 |
|---|---|---|
| **Amgueddfa Cymru** | 593 (a 206) | 631 (a 147) |
| **Y Llyfrgell Genedlaethol** | 178 (a 25) | 282.3 (a 7.3) |
| **Cyngor Celfyddydau Cymru** | 88 | 94 |
| **Comisiwn Brenhinol** | 22.2 (a 7) | 32.5 (a 12) |
| **Chwaraeon Cymru** | 145.85 | 143.5 |

***DS. Ar gyfer Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, y ffigurau a ddarparwyd yw nifer y staff. Ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Chwaraeon Cymru a Chwaraeon Cymru mae'r ffigurau a ddarparwyd yn rhai Cyfwerth ag Amser Llawn. Darperir y ffigurau ar gyfer staff parhaol gyda staff prosiect a/neu achlysurol mewn cromfachau.***

## Cyhoeddi

**139.** Ar ôl cael nifer fawr o ohebiaeth am effaith toriadau cyllid ar y sector cyhoeddi, cynhaliwyd trafodaeth bord gron gyda chynrychiolwyr cyhoeddi ar 28 Tachwedd 2024.

**140.** Disgrifiodd y cyhoeddwyr sector sydd wedi'i wthio i'r eithaf, gyda rhai yn wynebu toriadau mewn termau real o 50 y cant dros ddegawd. O ganlyniad i gostau cynyddol, gostyngiad mewn gwerthiant a llai o gyllid, dywedodd rhai mai 2024 oedd eu blwyddyn waethaf erioed, gan gynnwys y pandemig. Roedd llawer yn amau a fyddent yn dal i fod mewn busnes ymhen blwyddyn.

**141.** Nododd cyhoeddwyr bwysigrwydd cyhoeddi a ariennir gan y llywodraeth yng Nghymru. Gwnaethant ddweud bod y boblogaeth gymharol fach yn golygu bod angen buddsoddiad cyhoeddus i wneud llyfrau am Gymru ac i Gymru yn economaidd hyfyw. Mae'r angenrheidrwydd hwn yn fwyaf difrifol yn yr iaith Gymraeg. Eglurwyd, er gwaethaf yr angen am gyllid cyhoeddus, fod hyn yn gyffredinol yn cyfrif am lai nag 20 y cant o incwm gwerthiant. Mae hyn yn gwneud

[129] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 30 Beicio Cymru (Saesneg yn unig)

buddsoddiad cyhoeddus mewn cyhoeddi yng Nghymru, yn eu barn hwy, yn werth da am arian. Fel gydag agweddau eraill ar ddiwylliant a chwaraeon, tynnodd cyhoeddwyr sylw ei bod yn llawer haws – ac yn rhatach – i gadw'r diwydiant cyhoeddi presennol i fynd gyda chyllid digonol, nag ydyw iddo ddymchwel a bod yn rhaid i'r llywodraeth ei ailadeiladu o'r newydd.

## Ein barn ni

**142.** Siaradodd tystion am 'storm berffaith' o ostyngiadau cyllid, sy'n dod o bob cyfeiriad ac ar yr un pryd. Clywsom fod effaith chwyddiant, costau cynyddol a llai o gyfranogiad ar ôl COVID wedi gwaethygu straen ariannol lefelau cyllid hanesyddol isel. Gan hynny, ychydig iawn o gapasiti sydd ganddynt, os o gwbl, i amsugno'r toriadau hyn.

**143.** O ystyried y pwysau ariannol hyn, clywsom ei bod yn anodd cynnal cyfleusterau chwaraeon a diwylliannol, a bod rhai wedi cau hyd yn oed, neu'n wynebu cau. Rydym yn pryderu'n fawr am gyflwr presennol cyfleusterau chwaraeon a diwylliannol yng Nghymru ac yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gweithio gydag awdurdodau lleol i archwilio cyflwr y gwasanaethau anstatudol hyn. Nodwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda grŵp Prif Swyddogion Hamdden Cymru i bennu cyflwr cyfleusterau hamdden ym mhob awdurdod lleol, ond credwn y dylai hyn gynnwys cyfleusterau diwylliant a chelfyddydau hefyd.

**144.** Ni ddylid ystyried diwylliant a chwaraeon fel pethau 'braf i'w cael', ond fel blociau adeiladu sylfaenol ar gyfer Cymru hapusach, gyfoethocach ac iachach. Maent yn gynhenid i'r profiad dynol a dylid eu hystyried felly gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn pryderu am gyflwr presennol cyfleusterau chwaraeon a diwylliant ac rydym am eu gweld yn cael y buddsoddiad y maent yn ei haeddu. Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, sicrhau bod yr asedau cymunedol pwysig hyn yn parhau i fod ar gael yn ein cymunedau, a bod cyfleusterau, gan gynnwys meysydd chwaraeon yn rhai o safon. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol i ddeall yn well y defnydd presennol o gyfleusterau chwaraeon mewn ysgolion ac archwilio sut y gellir eu hagor a gwneud defnydd gwell o gyfleusterau. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n helaeth yn ei Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, ond ychydig iawn o feddwl sydd wedi'i roi i'r modd y gall y cyfleusterau newydd hyn fod o fudd i glybiau chwaraeon a'r gymuned leol ehangach. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r rhwystrau y mae ysgolion yn eu hwynebu wrth geisio agor y tu allan i oriau addysgu.

**145.** Yn ein hadroddiad ar gymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig, gwnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyllido'r gwaith o agor cyfleusterau ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn yr ardaloedd hynny. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, gan nodi ei bod eisoes yn darparu cyllid i helpu ysgolion i weithredu a datblygu fel Ysgolion Bro, gan estyn allan i feithrin cysylltiadau â theuluoedd a gweithio gyda'r gymuned ehangach i gefnogi pob disgybl, yn enwedig y rheini sydd dan anfantais oherwydd tlodi.[130] Byddem yn ddiolchgar am ddiweddariad ar y cynnydd o ran gweithredu'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cynhwysfawr o gyflwr cyfleusterau chwaraeon a diwylliannol, gan gynnwys sut i wneud y defnydd gorau o gyfleusterau chwaraeon mewn ysgolion. Dylai'r adolygiad hwn ystyried y rhwystrau a allai atal rhagor o ddefnydd o gyfleusterau ysgol y tu allan i oriau addysgu a sut i oresgyn y rhwystrau hynny.

**Casgliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar gynnydd wrth weithredu argymhelliad 3 yn ein hadroddiad ar gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig.

**146.** Clywsom fod materion staffio yn gyffredin ar draws y sectorau chwaraeon a diwylliant, gyda sefydliadau'n wynebu anawsterau wrth gadw a denu pobl gymwysedig. Mae cyflogau is a chontractau ansicr wedi arwain at bobl yn gadael y sector a lleihau morâl staff, ac nid oes gan sefydliadau fawr o ddewis ond cyflwyno diswyddiadau.

**147.** Nodwn fod swm sylweddol o'r cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi'i wario ar ddiswyddiadau ac rydym yn pryderu am effaith y diswyddiadau hyn ar ddyfodol y sector. Mae ffigurau a ddarparwyd gan y Gweinidog yn dangos gostyngiad yn nifer y staff parhaol ar draws holl gyrff y diwylliant. Er gwaethaf hyn, clywsom fod sefydliadau'n dal i geisio darparu'r un lefel o wasanaeth, ond gyda llai o bobl. Mae hyn yn anghynaladwy, heb sôn am y bwlch sgiliau sy'n debygol o gael ei greu o ganlyniad. Er mwyn i ni gael dealltwriaeth well o gyflwr presennol sefydliadau a gwerth y cyllid ychwanegol a ddarparwyd, gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi dadansoddiad i ni o sut y cafodd y cyllid ychwanegol o £5 miliwn a ddarparwyd ym mis Medi 2024 ei wario, gan gynnwys a oedd y cyllid hwn yn

[130] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig

cefnogi costau diswyddo. Rydym yn pryderu nad oes gan Lywodraeth Cymru ddealltwriaeth lawn o effaith toriadau cyllid rheolaidd ar y sector ac yn gobeithio y bydd rhagor o ddata yn helpu i lywio buddsoddiadau yn y sectorau pwysig hyn yn y dyfodol.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru roi dadansoddiad i'r Pwyllgor o sut mae'r cyllid ychwanegol o £5 miliwn yn ystod y flwyddyn wedi cael ei wario.

# 3. Ymateb y sector

## Blaenoriaethau

**148.** Siaradodd pob un o'r sefydliadau a gymerodd ran yn ein gweithgareddau ymgysylltu am effaith llai o gyllid ar eu blaenoriaethau, eu twf a'u huchelgais. Dywedodd un sefydliad y canlynol wrthym:

> *"Rhaid i'r egwyddorion a'r pethau rydych chi eisiau eu cyflawni o ran targedau ddod yn ail i oroesi… Mae hyn yn cael effaith ar y bobl sy'n gweithio gyda ni – y cymunedau a'r bobl fwyaf agored i niwed sydd ein hangen ni. Dyna'r effaith wirioneddol."*

**149.** Siaradodd y sefydliadau hefyd am orfod cwtogi prosiectau sydd eisoes ar waith a naill ai gorfod addasu prosiectau newydd neu beidio â'u dechrau o gwbl.

> *"Rydyn ni newydd gyrraedd y rhestr fer ar gyfer gwobr arloesi am wasanaeth danfon nwyddau i gartrefi pobl dros y gaeaf, ond dydyn ni ddim mewn gwirionedd wedi cael yr arian o unman i'w gyflawni nawr."*
>
> *"Rydyn ni wedi gorfod rhoi'r gorau i rai o'r rhaglenni craidd rydyn ni wedi bod yn eu rhedeg am 20 mlynedd… mae rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd ynghylch pa brosiectau i'w rhedeg, pa brosiectau rydyn ni'n meddwl sydd fwyaf buddiol yn y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu."*

**150.** Cyfeiriodd rhai sefydliadau at eu rhwystredigaeth o orfod cyfyngu ar eu hystod o raglenni. Dywedodd un cyfranogwr y canlynol:

> *"Theatr ydyn ni. Mae pobl yn dod atom, maen nhw eisiau gweld drama, maen nhw eisiau gweld sioeau cerdd, ac mewn gwirionedd yr unig beth y gallwn fforddio ei gynnig yw cerddoriaeth fyw a rhywfaint o gomedi stand-yp, oherwydd dyna un o'r ychydig bethau sy'n talu eu costau eu hunain."*

**151.** Dywedodd Undeb y Cerddorion fod hyd yn oed y sefydliadau mwyaf yn ymdopi â'r sefyllfa bresennol drwy leihau ansawdd a/neu faint yr hyn maent yn ei

wneud.[131] Dywedodd National Theatre Wales ei fod yn ceisio gwneud mwy gyda llawer llai, ac mae wedi dod yn anghynaladwy i'r unigolion sy'n rhan ohono geisio cyflawni'r gweithgareddau hynny.[132] Dywedodd CCC wrthym fod gwaith newydd neu arfaethedig yn cael ei roi o'r neilltu er mwyn canolbwyntio ar weithgaredd profedig a sicr gan fod y gost a'r risgiau cysylltiedig yn is:

> *"It has also meant less investment in new or experimental work, and less touring of product or co-producing – all of which are seen as 'higher risk' for attracting audiences and – in the case of production/touring – much higher upfront costs to the venue or company which are harder to recuperate through ticket sales which are unknown and fully reliant on audience numbers, which are often unpredictable. The cost of touring in set build, accommodation and fuel is limiting the amount of product available and the amount of product we can fund."*[133]

**152.** Yn yr un modd, nododd yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth mai rhaglennu cerddoriaeth newydd a gwreiddiol yw'r amlycaf i ddioddef o ddiffyg cyllid.[134]

**153.** Dywedodd Cyngor Gwynedd ei fod wedi gorfod cwtogi cyfanswm y gronfa grant ar gyfer cefnogi'r celfyddydau yn y sir. Mae hefyd wedi gorfod ailstrwythuro gwasanaethau llyfrgell gan gynnwys cau rhai gwasanaethau, er enghraifft mae'r gwasanaeth Llyfrgell ar gyfer ysgolion a'r lori Llyfrgell wedi dod i ben.[135]

**154.** Esboniodd y Llyfrgell sut yr ymatebodd i'r toriadau drwy flaenoriaethu "gwasanaethau rheng flaen".[136] Mae'n gweithio gyda'r bwrdd a chyda'r staff i ddylunio cynllun strategol newydd ar gyfer y llyfrgell, i edrych ymlaen mewn ffordd gadarnhaol ac archwilio ffyrdd gwahanol o ddarparu gwasanaethau.[137] O ran gwaith allgymorth y Llyfrgell, mae wedi bod yn ceisio diogelu'r gwaith

[131] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 44 Undeb y Cerddorion (Saesneg yn unig)
[132] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 17
[133] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 35 Cyngor Celfyddydau Cymru (Saesneg yn unig)
[134] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 29 Yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth (Saesneg yn unig)
[135] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 20 Cyngor Gwynedd
[136] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 19
[137] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 20

cymunedol a digidol, ond mae'n debyg na fyddai'n gallu parhau i wneud hynny pe bai'n wynebu toriad ar yr un lefel â'r llynedd.[138]

**155.** Roedd y gallu i gynnal dim ond y lefel sylfaenol o ddarparu gwasanaethau yn thema gyffredin yn ein tystiolaeth. Er enghraifft, dywedodd Chwaraeon Cymru y canlynol:

> *"Mae'r arian cyhoeddus hwn yn draddodiadol yn cefnogi buddsoddiad mewn cyfranogiad, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, diogelu a llywodraethu (gan gynnwys materion cydraddoldeb rhyngadrannol, cwynion, integriti, ac ati). […] Gall unrhyw doriadau pellach, yn uniongyrchol neu mewn termau real drwy chwyddiant, olygu mai ychydig iawn o waith datblygu y gall y CRhC ei wneud a dim ond gallu cynnal eu dyletswyddau cyfreithiol sylfaenol fydd yn bosibl iddynt."*[139]

**156.** Yn yr un modd, esboniodd y Comisiwn ei fod wedi gorfod gwneud gostyngiadau sylweddol o ran darparu gwasanaethau:

> *"we are required under the terms of our Royal Warrant and the Historic Environment (Wales) Act to make a photographic and written record for posterity of the many significant buildings that are subject to wholesale or partial demolition in Wales, but we are only able in reality to record a fraction of these."*[140]

**157.** Mae Opera Cenedlaethol Cymru wedi canfod arbedion sy'n golygu y gall y sefydliad oroesi'r ddwy flynedd nesaf, ond eglurodd fod y goroesiad yn anhygoel o beryglus oherwydd, o ystyried y sefyllfa ariannol bresennol, nad oes lle i wallau a gallai unrhyw lithriad i unrhyw gyfeiriad roi'r cwmni mewn perygl.[141]

**158.** Dywedodd y Cyngor Llyfrau wrthym fod llyfrau gwreiddiol Cymraeg mewn perygl o ganlyniad i'r toriadau. Clywsom fod creu llyfr gwreiddiol, yn enwedig llyfr testun a lluniau, yn gostus a dyna lle mae'r Cyngor Llyfrau yn gweld cwmnïau

[138] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 44
[139] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 41 Chwaraeon Cymru
[140] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 40 CBHC (Saesneg yn unig)
[141] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 328

cyhoeddi yn torri'n ôl, gan arwain at lai o gyfleoedd i awduron a darlunwyr o Gymru.[142]

## Creu incwm

**159.** Clywsom fod sefydliadau'n chwilio am ffrydiau incwm amgen i liniaru effaith toriadau.

**160.** Dywedodd Chapter wrthym fod mwy o bwysau ar gyllid a gyflawnwyd drwy ymddiriedolaethau a sefydliadau, rhoddion unigolion a rhoddion corfforaethol.[143] Ond dywedodd Nofio Cymru fod gostyngiadau cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon yn digalonni cyllidwyr masnachol.

> *"in all the discussions I have with future potential sponsors or external organisations—some really big names—they're interested in supporting or working with sport, but all they see is the Welsh Government and other areas cutting, and they ask themselves, 'Well, why am I putting a pound in?'"*[144]

**161.** Dywedodd y Gymdeithas Tennis Lawnt a Tennis Cymru fod cyfleoedd i sicrhau cyllid masnachol mewn chwaraeon yn fwyfwy cyfyngedig.[145] Dywedodd StreetGames ei fod wedi bod yn canolbwyntio ar drosoli cyllid nad yw'n gyllid ar gyfer chwaraeon i mewn i chwaraeon, gan sicrhau bod cyllidwyr nad ydynt yn cyllido chwaraeon yn deall y ffyrdd y gall chwaraeon gyflawni yn erbyn eu hamcanion ac ar draws meysydd polisi.[146]

**162.** Yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu, soniodd sefydliadau pa mor gystadleuol y mae'r broses geisiadau i ymddiriedolaethau a sefydliadau wedi mynd yn y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, nododd un sefydliad ei fod wedi ysgrifennu 25 o geisiadau yn ystod chwe mis cyntaf 2024, gyda dim ond un yn llwyddiannus.

**163.** Nododd rhai sefydliadau fod llawer o gyllidwyr craidd mawr yn culhau eu cylch gwaith, gan gyfyngu ar eu cymhwysedd i wneud cais am y cyllid, a bod y broses ymgeisio, gan gynnwys Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru,

---

[142] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 196
[143] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 21 Chapter Caerdydd Cyf (Saesneg yn unig)
[144] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 304
[145] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 43 Cymdeithas Tennis Lawnt a Tennis Cymru (Saesneg yn unig)
[146] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 48 StreetGames (Saesneg yn unig)

wedi dod yn gymhleth, yn cymryd llawer o amser ac o dan bwysau mawr. Roeddent yn teimlo bod cyfleoedd i wneud cais am gyllid ychwanegol yn cynyddu pwysau ac yn meithrin ansicrwydd, ac mae'r swm a geisir yn aml yn fach. Nododd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fod yr amgylchedd cyllido hwn yn parhau'r heriau cyllido y mae'n cael trafferth mynd i'r afael â hwy.

**164.** Roedd galwadau yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu i ddatblygu strategaeth i alluogi sefydliadau i ganolbwyntio ar gynllunio hirdymor a rhoi llai o sylw i wariant munud olaf, er mwyn gwella sefydlogrwydd a helpu i ddefnyddio cyllid yn fwy strategol. Roedd galwadau hefyd am ffordd fwy cryno o ddosbarthu cyllid fel nad yw mor llafurus o safbwynt y sefydliadau sy'n gwneud cais amdano; a chyfeirio a chymorth gwell i gael gafael ar gyfleoedd cyllido y tu hwnt i CCC.

**165.** Yn ôl Opera Cenedlaethol Cymru mae diffyg dyngarwch amlwg iawn yng Nghymru, o'i gymharu â chenhedloedd eraill. Mae'n ddiolchgar iawn ac yn ddibynnol ar y dyngarwyr sydd yn rhoi i Opera Cenedlaethol Cymru, ond yn galw ar Lywodraeth Cymru i drefnu a hyrwyddo rhaglen ehangach o annog dyngarwch i'r celfyddydau yng Nghymru. Mae'n gweld yr angen am raglen o'r fath oherwydd y bydd yn fwy dibynnol arni yn y dyfodol.[147] Yn yr un modd, galwodd Timothy Payne o Ganolfan Dreftadaeth Doc Penfro ar Lywodraeth Cymru i weithredu fel hwylusydd i gysylltu sefydliadau â noddwyr corfforaethol posibl neu ddyngarwyr.[148]

**166.** Dywedodd CCC wrthym fod incwm y loteri wedi cael ei ddefnyddio i ategu'r toriadau mewn cymorth grant. Aeth ymlaen i esbonio fel a ganlyn:

> *"This has put additional pressure on our lottery programmes and an overall reduction in the number of applications we are now able to fund, with some grant rounds achieving a success rate as low as 35% due to budget constraints. Applicants and other Lottery distributors have noted increased demand and competition."*[149]

**167.** Eglurodd y Comisiwn ei fod wedi bod yn "llwyddiannus iawn yn cael cyllid ar gyfer pob math o brojectau" ond nododd nad yw cyllid allanol "yn guaranteed". Nodwyd hefyd na all wneud cais am ffrydiau penodol o gyllid, er enghraifft

[147] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 397
[148] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 09 Timothy Payne (Saesneg yn unig)
[149] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 35 Cyngor Celfyddydau Cymru [Saesneg yn unig]

Ymchwil ac Arloesi y DU, oherwydd ei statws fel comisiwn brenhinol.[150] Am y rheswm hwnnw, clywsom fod y Comisiynwyr yn cynnwys hynny ar eu hagenda ym mhob cyfarfod, a ddylent geisio statws elusennol.[151]

**168.** Clywsom fod y Llyfrgell yn parhau i ddibynnu ar arian o'i chronfeydd preifat, ond mae hefyd yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu incwm drwy allfeydd manwerthu a gwasanaethau masnachol.[152] Yn yr un modd, clywsom fod Amgueddfa Cymru wedi bod yn codi tâl am arddangosfeydd er mwyn codi refeniw, ond mae'n glir iawn na fydd yn codi tâl am fynediad.[153] Dywedodd y canlynol:

> *"where there is an activity that requires extra resource, time and expertise around it—so, it's not just about opening up the collection, but it's about curating a particular experience, exhibitions, talks, tours—then those are the kinds of activities we will charge for."*[154]

**169.** Mewn darn o waith ar wahân, rydym wedi bod yn ystyried materion a godwyd gan sefydliadau diwylliannol sy'n codi tâl am arddangosfeydd. Trafodwyd y rhain gydag Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol, Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol a chyn-bennaeth Amgueddfeydd Glasgow ar 6 Mehefin 2024. Dywedodd yr Amgueddfa wrthym fod digwyddiadau ac arddangosfeydd ynddynt eu hunain yn ffrydiau incwm cymharol fach, ond nododd fod y gwerth yn llawer mwy na dim ond yr incwm hwnnw gan eu bod yn denu cynulleidfaoedd gwahanol[155]:

> *"some of those events and exhibitions, although in themselves a very small proportion of the income that comes in, have a positive impact on our secondary spend for our cafes, for our*

[150] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 305
[151] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 312
[152] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 52 Llyfrgell Genedlaethol Cymru
[153] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 11 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 64
[154] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 11 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 65
[155] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 6 Mehefin 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 75

> *shops, for our car parking, et cetera, and so the greater value of them is really important."*[156]

**170.** Dywedodd Gwasanaeth Amgueddfeydd Merthyr Tudful fod cyflwyno codi tâl, ni waeth pa mor fach, wedi effeithio ar ymweliadau gan y gymuned leol, sy'n ardal economaidd-gymdeithasol is.[157] Cafodd codi tâl mynediad ei ddisgrifio gan y Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau fel mater cymhleth, gan ychwanegu'r canlynol:

> *"Many independent museums prefer to encourage donations than charge for entry but most rely on income from admission fees."*[158]

**171.** Dywedodd y Gweinidog fod yn rhaid sicrhau bod mynediad i bawb ond mai penderfyniad y cyrff hyd braich yw codi tâl am arddangosfeydd.[159] Yn ôl swyddog Llywodraeth Cymru:

> *"The data that the museum itself has gathered about the response of the people who've paid to go into Big Pit and the people who paid to access the Art of the Selfie exhibition has been really positive. Most of the feedback has been that people would have been happy to voluntarily pay a charge for that quality of exhibition."*[160]

**172.** Disgrifiad Chapter oedd bod cyllid gan ymddiriedolaethau a sefydliadau yn gyfyngedig.

> *"it's not the same as having an unrestricted fund that just goes towards your core activity. You've always got to have an activity associated with it. So, it's great to have, but brings its own hurdles, I suppose."*[161]

---

[156] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 6 Mehefin 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 76
[157] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 19 Gwasanaeth Amgueddfeydd Merthyr Tudful (Saesneg yn unig)
[158] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 42 Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru (Saesneg yn unig)
[159] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 28 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 185
[160] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 80
[161] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 87

**173.** Adleisiodd National Theatre Wales nad yw cyllid o'r fath heb ei heriau, gan nodi nad yw yn aml ar gyfer costau craidd, nac ar gyfer cyflogau, a'i fod yn bennaf yn gyllid fesul prosiect. Dywedodd hefyd fod nifer ei staff yn isel, a bod y ceisiadau'n cymryd amser i'w cwblhau, sy'n cael effaith ar yr hyn y gall ei gyflawni o ran prosiectau.[162]

**174.** Dywedodd Steffan Jones-Hughes o Oriel Davies Gallery fod entrepreneuriaeth wedi dod yn hanfod ychwanegol, a bod hynny'n cymryd amser ac arian.[163] Hoffai Timothy Payne o Ganolfan Dreftadaeth Doc Penfro weld rhaglenni hyfforddi i wirfoddolwyr a staff er mwyn meithrin sgiliau mewn meysydd fel codi arian i helpu i arallgyfeirio ffrydiau incwm.[164]

**175.** Dywedodd Clwb Hoci Y Rhyl a'r Cylch fod meini prawf ar gyfer ceisiadau penodol yn ei gwneud yn anos cael gafael ar gyllid ar gyfer costau rhedeg cyffredinol a bod aelodau'n treulio cryn amser yn chwilio am ffynonellau posibl o incwm grant, i ganfod nad yw'r clwb yn cyd-fynd â'r meini prawf y mae'r mwyafrif o gronfeydd yn eu mynnu.[165] Dywedodd Clwb Hoci Tregŵyr fod y broses hon yn straen ac yn cymryd llawer o amser o gofio eu bod yn dibynnu ar wirfoddolwyr yn unig.[166]

**176.** Galwodd Ysgol Gelf a Dylunio Met Caerdydd am ddiwygio mynediad at gyllid arloesi, gan nodi bod angen arian cyfatebol neu fuddsoddiad uniongyrchol gan fusnesau ar gyfer sawl ffrwd gyllido, a all fod yn rhwystr i bobl hunangyflogedig a microfusnesau.[167]

**177.** Tynnwyd sylw gan nifer o dystion, gan gynnwys awdurdodau lleol a Creu Cymru at bwysigrwydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Fodd bynnag, nododd CLlLC oherwydd y terfyn amser sydd ynghlwm wrtho a'r ansicrwydd y tu hwnt i fis Mawrth nesaf, ei bod yn anodd iawn ffurfio partneriaethau a chynllunio ar gyfer y tymor hir.[168] Galwodd Community Leisure UK ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU ar agwedd fwy strategol tuag at y gronfa i sicrhau y caiff ei dosbarthu'n deg ac yn effeithiol.[169]

[162] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 89
[163] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 06 Steffan Jones-Hughes (Saesneg yn unig)
[164] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 09 Timothy Payne (Saesneg yn unig)
[165] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 01 Clwb Hoci Y Rhyl a'r Cylch (Saesneg yn unig)
[166] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 01 Clwb Hoci Y Rhyl a'r Cylch (Saesneg yn unig)
[167] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 04 Prifysgol Met Caerdydd – Ysgol Gelf a Dylunio
[168] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 108
[169] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 32 Community Leisure UK (Saesneg yn unig)

**178.** Nododd CGGC y byddai buddsoddi mewn cyllid craidd, yn hytrach na gweithgareddau prosiectau, yn helpu sefydliadau i arloesi ac ehangu eu capasiti:

> *"Ni all mudiadau gwirfoddol ddod yn fwy ariannol wydn heb fuddsoddiad mewn gweithgareddau nad ydynt yn rhan o brosiect sy'n cynyddu eu gallu i gynhyrchu incwm."*[170]

**179.** Dywedodd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wrthym ei bod wedi gwneud ei phrosesau ymgeisio'n symlach, yn enwedig o ran ceisiadau llai.[171]

**180.** Dywedodd Llywodraeth Cymru fod angen i gyrff hyd braich, o ystyried sefyllfa heriol y gyllideb, edrych ar beth arall y gallant ei wneud i godi refeniw ychwanegol.[172]

## Cydweithredu

**181.** Cawsom dystiolaeth amrywiol ar faint o gydweithio a wneir o fewn y sectorau chwaraeon a diwylliant i liniaru effaith y toriadau cyllid.

**182.** Dywedodd Chapter wrthym ei bod yn gweithio'n fwy cydweithredol gyda phartneriaethau a sefydliadau ledled y wlad ers y toriadau cyllid, er mwyn sicrhau nad yw'n gweithio'n gyfochrog ar yr un pethau. Dywedodd y canlynol:

> *"We've always worked in partnership and collaboration, it's the nature of our organisation, but we're doing that much more now, because we're all sharing more limited resources and we all want to reach, often, the same audiences and, therefore, the same ends to what we're doing. So, we work very closely in collaboration, naturally, with organisations that are based in our building, but then also across Wales. It feels very important that we work more collaboratively and share our resources now than ever."*[173]

**183.** Dywedodd National Theatre Wales fod cydweithredu yn allweddol i gynnal sector y celfyddydau.[174] Galwodd am ragor o gymorth gan Lywodraeth Cymru i

[170] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 28 CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)
[171] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 53 Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (Saesneg yn unig)
[172] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 81
[173] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 73
[174] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 78

hwyluso cydweithredu drwy gael strategaeth genedlaethol fel bod pawb yn gweithio tuag at nod cyffredin.[175]

**184.** Esboniodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru ei bod yn gweithredu cyfleusterau cyfrifyddu a chaffael a rennir i'w haelodau.[176] Yn yr un modd, dywedodd Pêl-rwyd Cymru ei fod, o ganlyniad i gydweithio, wedi gallu lleihau'r ddibyniaeth ar gyllid Chwaraeon Cymru, er enghraifft drwy rannu swyddi gyda Pêl-fasged Cymru a chwilio am nawdd o ffynonellau masnachol.[177] Mae Hoci Cymru[178] a Chwaraeon Anabledd Cymru[179] hefyd wedi dechrau gweithrediadau gwasanaeth a rennir.

**185.** Esboniodd y Comisiwn ei fod ar fin dechrau trafodaethau ffurfiol gyda Cadw i archwilio meysydd o gyd-ddiddordeb, synergedd posibl, a ffyrdd gwell o ddarparu gwasanaethau, a bod yr opsiynau'n amrywio o alinio rhaglenni gwaith yn agosach, i uno llawn. Yn ôl y Comisiwn:

> *"If Cadw and the Commission are to amalgamate, it should not be because we are forced to do so as a result of the burning platform of budget cuts. It should be because this would be in the best interests of the people and the historic environment of Wales."*[180]

**186.** Fodd bynnag, dywedodd y Comisiwn fod ymdrechion diweddar i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru (gan gynnwys ei his-adran amgylchedd hanesyddol, Cadw), y Llyfrgell Genedlaethol ac Amgueddfa Cymru dros wasanaethau Adnoddau Dynol a gwasanaethau ariannol a rennir wedi dangos nad yw'n ddichonol yn ymarferol ac nad oes arbedion i'w gwneud. Dywedodd y canlynol:

> *"we are all operating very lean operations that are barely adequate to meet the needs of our individual institutions, without spare capacity to share with others."*[181]

175 Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 78
176 Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 46 Cymdeithas Chwaraeon Cymru (Saesneg yn unig)
177 Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 236
178 Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 51 Hoci Cymru (Saesneg yn unig)
179 Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 49 Chwaraeon Anabledd Cymru (Saesneg yn unig)
180 Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 40 CBHC (Saeseng yn unig)
181 Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 40 CBHC (Saeseng yn unig)

**187.** Dywedodd Cyngor Gwynedd wrthym ei bod yn anodd cydweithio heb arian ychwanegol a chapasiti ychwanegol.[182] Galwodd Hoci Cymru am arweiniad cliriach ac arfer gweithio i hyrwyddo mwy o gydweithio ac arfer gweithio a rennir.[183]

## Ein barn ni

**188.** Dywed yr holl sefydliadau fod llai o gyllid wedi'u gorfodi i roi mwy o flaenoriaeth i oroesi nag i'w twf a'u nodau hirdymor. Mae eu gwaith cynllunio bellach yn adweithiol, ac yn canolbwyntio ar doriadau cyllidebol ar unwaith yn hytrach na datblygiad strategol. Mae'r dirwedd gyllido wedi mynd yn fwyfwy cystadleuol, wrth i'r prosesau ymgeisio fynd yn fwy cymhleth ac yn llai hygyrch. Mae sefydliadau'n ei chael yn anodd arallgyfeirio ffrydiau incwm, sy'n cymryd llawer o amser ac yn amharu ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau.

**189.** Oherwydd toriadau cyllidebol, mae sefydliadau wedi gorfod cwtogi neu ganslo prosiectau sydd eisoes ar waith a gohirio dechrau rhai newydd. Mae'r gostyngiad hwn yn cyfyngu ar eu gallu i gynnig rhaglenni amrywiol, gan eu gorfodi i ganolbwyntio ar weithgareddau "diogel" sy'n gallu talu costau hanfodol, yn aml ar draul anghenion ehangach y gymuned.

**190.** Hoffem weld sefydliadau'n ymateb yn fwy strategol i'r gostyngiad yn eu hincwm, er enghraifft, drwy rannu gwasanaethau a chwilio am weithgareddau masnachol newydd. Byddai hyn yn cael ei gynorthwyo gan ragor o arweiniad gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chwaraeon Cymru; gyda chyfarwyddyd strategol yn y pen draw gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi bod yn ddiffygiol. Pe baent yn fwy gwydn, byddent mewn sefyllfa well o lawer i gyflawni amcanion a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o gyfeiriad strategol i alluogi'r sectorau diwylliant a chwaraeon i ffynnu a chyflawni amcanion a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. I'r perwyl hwn, dylai Blaenoriaethau Diwylliant arfaethedig Llywodraeth Cymru gynnwys ymrwymiadau clir a mesuradwy tuag at y nod hwn.

[182] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 104
[183] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 51 Hoci Cymru (Saesneg yn unig)

# 4. Canlyniadau cymdeithasol ac economaidd ehangach

## Cymunedau amrywiol ac economaidd-gymdeithasol isel

**191.** Clywsom fod gostyngiadau mewn gwasanaethau a ffioedd uwch yn effeithio ar allu pawb i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a diwylliannol. Ond dywedodd nifer o dystion fod effaith anghymesur ar bobl â nodweddion gwarchodedig a'r rhai sydd â statws economaidd-gymdeithasol is. Dywedodd Canolfan yr Economi Greadigol y canlynol:

> *"These groups are already underrepresented and face significant barriers to entry and progression in the sector. Funding cuts will exacerbate these issues in complex ways, leading to reduced opportunities, exacerbated inequality, and a potential rollback of the progress made in promoting diversity and inclusivity within the cultural industries thus far."*[184]

**192.** Dywedodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru wrthym y bydd unrhyw doriadau mewn cyllid yn cael effaith uniongyrchol ar ei gallu i ddarparu rhaglenni yn y cymunedau sydd eu hangen fwyaf.[185] Yn yr un modd, dywedodd CCC y canlynol am gyfnod o bwysau ariannol:

> *"it is the socially, economically and culturally marginalised and less well represented and heard individuals, groups and communities in our society that suffer first."*[186]

**193.** Yn ôl Chwaraeon Cymru:

> *"Gallai'r agenda cynhwysiant gael ei thanseilio'n sylweddol gyda'r toriadau sydd wedi dod i law, ac yn sicr bydd unrhyw doriadau pellach yn debygol o gyfyngu ar yr agenda ar gyfer darpariaeth chwaraeon eang. Mae hon yn gost cyfle na all y sector chwaraeon ei fforddio o ystyried bod tangynrychiolaeth*

[184] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 36 Prifysgol Caerdydd, Canolfan yr Economi Greadigol (Saesneg yn unig)
[185] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 46 Cymdeithas Chwaraeon Cymru (Saesneg yn unig)
[186] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 35 Cyngor Celfyddydau Cymru [Saesneg yn unig]

*gydnabyddedig eisoes o ran hil, crefydd, ethnigrwydd, rhywedd, anabledd ac amddifadedd."*[187]

**194.** Dywedodd Clwb Hoci Y Rhyl a'r Cylch ei fod bellach, o ganlyniad i gostau cynyddol rhedeg y clwb, yn cael trafferth darparu cymorth ariannol i aelodau nad ydynt yn gallu fforddio'r costau sy'n gysylltiedig â chwarae hoci.[188] Yn yr un modd, dywedodd Gymnasteg Cymru ei fod wedi gorfod atal cynlluniau i fuddsoddi rhagor yn e gronfa galedi, er gwaethaf cynnydd yn y galw.[189] Dywedodd Codi Pwysau Cymru fod cyllid tuag at raglen ar gyfer plant difreintiedig wedi cael ei dorri yn ei hanner.[190]

**195.** Yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu, soniodd rhai sefydliadau diwylliannol am eu pryderon ynghylch effaith llai o gyllid ar eu gwaith gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches, sy'n un o'r ychydig fannau diogel sydd ganddynt i rannu a dathlu eu diwylliant a'u hunaniaeth.

**196.** Nododd sefydliadau chwaraeon a gymerodd ran yn ein gweithgareddau ymgysylltu, y rhwystrau cynyddol y mae pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel yn eu hwynebu o ran gallu manteisio ar gyfleoedd hamdden a chwaraeon oherwydd y costau cynyddol.

> *"Mae digon o rwystrau rhag cael mynediad at chwaraeon beth bynnag, ond rydym yn gweld fwyfwy mai'r gost yw'r rhwystr mwyaf nawr."*

**197.** Galwodd Creu Cymru am gymorth wedi'i dargedu i grwpiau agored i niwed, gan ychwanegu y gallai dirywiad o ran amrywiaeth rhaglenni arwain at sector diwylliannol llai cynhwysol.[191] Tynnodd sylw at bwysigrwydd cofio nad moethusrwydd yw'r celfyddydau, nad modd o adloniant ydynt, na allant ddod yn fraint i'r ychydig pan fo hawl gan bob un ohonom iddynt.[192]

**198.** Dywedodd Canolfan Ffilm Cymru fod sinemâu wedi ceisio sicrhau mynediad i bobl sydd â statws economaidd-gymdeithasol is drwy gynnig tocynnau am

---

[187] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 41 Chwaraeon Cymru
[188] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 01 Clwb Hoci Y Rhyl a'r Cylch (Saesneg yn unig)
[189] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 02 Gymnasteg Cymru (Saesneg yn unig)
[190] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 37 Codi Pwysau Cymru (Saesneg yn unig)
[191] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 25 Creu Cymru ([Saesneg yn unig)
[192] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 37

ddim, talu'r hyn rydych yn teimlo a gwasanaethau eraill fel banciau bwyd neu brydau am ddim. Fodd bynnag, nododd fod costau'n gysylltiedig â chynigion o'r fath.[193] Nododd Canolfan Grefft Rhuthun hefyd fod trefnu digwyddiadau i bobl â nodweddion gwarchodedig neu i bobl â chefndir economaidd-gymdeithasol is yn golygu costau ychwanegol sylweddol.[194]

**199.** Disgrifiodd Chapter y gwaith y mae'n ei wneud gyda chymunedau ond nododd fod angen rhagor o fuddsoddiad i gydnabod hynny o ystyried y data ynghylch sut y gall creadigrwydd a diwylliant helpu cymdeithas, cydlyniant cymunedol a chynwysoldeb.[195]

**200.** Gofynnodd Sofia Lazaridi y canlynol:

> *"if cultural organisations can barely keep the lights on, how are they supposed to do all the outreach and engagement work to under-served communities that you so like to see?"*[196]

**201.** Dywedodd Gymnasteg Cymru wrthym fod y toriadau'n cael effaith anghymesur ar ferched mewn chwaraeon, yn enwedig chwaraeon perfformiad uchel.[197] Dywedodd Hoci Cymru fod menywod a merched mewn chwaraeon yn aml yn wynebu rhwystrau mwy rhag cymryd rhan ac y gallai toriadau mewn cyllid waethygu'r anghyfartaledd hwn.[198]

**202.** O ganlyniad i ostyngiadau cyllid, mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi gohirio datblygu rhaglenni a phrosiectau newydd wedi'u targedu sy'n benodol i Bêl-droed Menywod a Merched, Pêl-droed Anabledd a phêl-droed mewn cymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol neu ddifreintiedig.[199]

**203.** Dywedodd Chwaraeon Anabledd Cymru fod effaith y toriadau cyllid yn gwaethygu o ran mynediad at gyfleoedd i bobl anabl.[200]

---

[193] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 51 Canolfan Ffilm Cymru (Saesneg yn unig)
[194] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 10 Canolfan Grefft Rhuthun (Saesneg yn unig)
[195] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 120
[196] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 15 Sofia Lazaridi (Saesneg yn unig)
[197] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 02 Gymnasteg Cymru (Saesneg yn unig)
[198] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 51 Hoci Cymru (Saesneg yn unig)
[199] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 45 Cymdeithas Bêl-droed Cymru
[200] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 49 Chwaraeon Anabledd Cymru (Saesneg yn unig)

**204.** Yn ôl Canolfan yr Economi Greadigol, mae buddsoddiad parhaus yn y sector diwylliannol yn hanfodol ar gyfer sicrhau ei fod yn adlewyrchu ac yn gwasanaethu amrywiaeth y cymunedau y mae'n eu cynrychioli.[201]

## Cymunedau gwledig

**205.** Nododd sefydliadau diwylliannol mewn ardaloedd gwledig a gymerodd ran yn ein gweithgareddau ymgysylltu fod y gostyngiadau cyllid wedi dwysáu'r her sydd ganddynt i gynnig cyfleoedd mewn ardaloedd gwledig, i bob oedran.

**206.** Yn ôl CLlLC mae'n effeithio ar bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig oherwydd bod costau darparu cyfleusterau yn uwch yn ogystal â bod opsiynau sector preifat amgen yn gyfyngedig.[202] Nododd Cyngor Gwynedd hefyd y costau uwch mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys y costau trafnidiaeth i gyrraedd cyfleusterau.[203]

**207.** Galwodd yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth am wella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus i agor mynediad at ddiwylliant.[204]

**208.** Dywedodd Canolfan Gelfyddydau Wyeside wrthym fod y lleoliad mewn perygl a bod buddsoddi mewn ardaloedd gwledig yn hanfodol oherwydd y rôl sylweddol y mae lleoliadau yn ei chwarae o ran bywiogrwydd cymunedau.[205]

**209.** Dywedodd y Gweinidog wrthym ei fod am gyrraedd sefyllfa lle gall pobl gael mynediad at y diwylliant a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.[206]

## Dawn y dyfodol

**210.** Yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu, mynegodd sefydliadau eu pryder nad ydynt yn gallu darparu ystod lawn o gyfleoedd i bobl ifanc, yn enwedig y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, i archwilio eu potensial a chanfod eu doniau o ran creadigrwydd a chwaraeon. Gan hynny, mae Cymru yn amddifadu ei hun o ddoniau'r dyfodol.

---

[201] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 36 Prifysgol Caerdydd, Canolfan yr Economi Greadigol (Saesneg yn unig)
[202] Tystiolaeth ysgrifenedig, CLlLC
[203] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 123
[204] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 29 Yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth (Saesneg yn unig)
[205] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 13 Canolfan Gelfyddydau Wyeside (Saesneg yn unig)
[206] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 64

**211.** Esboniodd un sefydliad sy'n gweithio gyda phobl ifanc dalentog pa mor ddibynnol ydyw ar sefydliadau llawr gwlad i feithrin doniau'r dyfodol. Dywedodd Opera Cenedlaethol Cymru wrthym na fydd dim llif mwyach, heb gymorth llawr gwlad:

> *"It's not about where we are now [...] but the worry is always for the future of the industry and what happens next. And without significant investment— [...] one day, we will simply wake up and there will be no talent left."*[207]

**212.** Roedd galwadau gan dystion i ystyried sut i ddenu pobl ifanc i ddatblygu hyfforddiant perthnasol i'r sector a chefnogi'r llif doniau. Dywedodd y Llyfrgell y canlynol:

> *"Rydym wedi colli peth arbenigedd staff – arbenigedd sydd yn unigryw i gasgliadau penodol, ffisegol a digidol. Collwyd sgiliau a gwybodaeth hefyd oedd yn allweddol i'r cydweithio ar draws y sector i gefnogi llyfrgelloedd ac archifau lleol. Mae colli y swyddi a'r sgiliau yma yn mynd i effeithio ar allu'r sector ehangach i ddelio gyda chaffael yn y dyfodol."*[208]

**213.** Roedd tystion, gan gynnwys Chapter a Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC), am weld Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn hyfforddiant a recriwtio ar gyfer y sector.[209] Yn ôl National Theatre Wales mae prinder sgiliau enfawr mewn meysydd penodol ar draws y sector. Gwnaethant alw am fwy o lwybrau i'r sector drwy ymyriadau fel prentisiaethau ar gyfer staff cefn llwyfan a thechnegol a sicrhau addysgu arbenigol ar draws pynciau creadigol yn yr ysgol.[210] Galwodd Equity hefyd am ymyrraeth frys gan Lywodraeth Cymru, gan ddweud nad oes modd gwrthdroi'r draen dawn fel arall.[211]

---

[207] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 307
[208] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 52 Llyfrgell Genedlaethol Cymru
[209] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Hydref 2024, Cofnod o'r Trafodion, paragraff 109;
Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 50 TAC
[210] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 111
[211] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 03 Equity (Saesneg yn unig)

**214.** Rhannodd sefydliadau diwylliannol a gymerodd ran yn ein gweithgareddau ymgysylltu eu pryderon am effaith y diffyg cyfleoedd creadigol ar bobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol.

> *"Er mwyn i bobl ifanc ffynnu'n gyffredinol, mae angen iddyn nhw i gyd fod yn greadigol. Mae angen iddyn nhw i gyd gael y cyfle artistig hwnnw, a chael nid dim ond un cyfle, ond dewis o blith ystod eang o gyfleoedd gwahanol."*
>
> *"Mae pobl yn meddwl y gall gwlad fyw heb y celfyddydau. Ond mae rhaid meddwl am y celfyddydau fel mwy nag adloniant er mwyn deall effaith y toriadau."*

**215.** Esboniodd Chapter ei bod yn draddodiadol wedi rhoi lle am ddim i unigolion ifanc neu sefydliadau newydd sy'n mynd i mewn i'r maes celfyddydau, ond bod ganddi lai o argaeledd nawr i helpu yn y ffordd yr arferai wneud.[212] Galwodd Creu Cerddoriaeth[213] a Huw Milward[214], sy'n ddatblygwr gemau ac yn gerddor, am gyllid tuag at ddarparu mannau ymarfer fforddiadwy.

**216.** Nododd Chwaraeon Cymru, Prifysgol Met Caerdydd, Codi Pwysau Cymru a Gymnasteg Cymru i gyd mewn tystiolaeth ysgrifenedig fod y cyfle i gystadlu ar y lefel uchaf, a chynrychioli Cymru ar lwyfan y byd dan fygythiad oherwydd llai o gyllid. Dywedodd Athletau Cymru fod y bwlch perfformiad rhwng athletwyr o Gymru a gweddill y DU ac yn fyd-eang yn cynyddu.[215]

**217.** Esboniodd Pêl-rwyd Cymru fod Tîm Pêl-rwyd Cenedlaethol Cymru yn nawfed yn y byd ar hyn o bryd a'r tîm chwaraeon uchaf yng Nghymru. Yn ei strategaeth 2030 mae'n anelu at fod yn y chwech uchaf yn y byd. Fodd bynnag, bu'n rhaid adolygu'r strategaeth honno'n ddiweddar, ac mae bellach yn edrych ar gynnal y nawfed safle oherwydd arian. Dywedodd y canlynol:

> *"We have 100 young women and girls in our pathway that are incredible netballers. That could really give us the quality we need on court to get us to top six, but, as it stands, with the*

[212] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 25
[213] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 18 Creu Cerddoriaeth (Saesneg yn unig)
[214] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFCRS 54 Huw Milward, Datblygwr Gêm a band Dim Parcio
[215] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 47 Athletau Cymru (Saesneg yn unig)

> *budget pressures for us, we can't give them those opportunities to prove themselves."*[216]

**218.** Yn yr un modd, nododd Sboncen Cymru nad yw mewn sefyllfa i anfon tîm i Bencampwriaethau Tîm y Byd Dynion a Menywod er bod ganddo chwaraewr yn y deg uchaf yn safleoedd y byd.[217]

**219.** Mae Athletau Cymru wedi gorfod ailasesu sut mae'n cefnogi ei athletwyr ac wedi lleihau nifer yr athletwyr sy'n cael grantiau arian parod i gefnogi eu gweithgareddau.[218] Dywedodd Gymnasteg Cymru fod athletwyr elitaidd yn gorfod gwneud mwy o gyfraniad ariannol at eu hyfforddiant[219] a siaradodd Nofio Cymru am bobl hynod dalentog yn cynrychioli eu gwlad yn gorfod talu eu costau teithio eu hunain:

> *"We're trying to make our national teams and our pathways reflect a modern 2024 Wales, we're looking at the future generations Act and all of the things that we've collectively signed up to, and we're very, very far away from that, because they have to pay for their own. And we're going to have that again—we're going to have people who can afford it wearing a Welsh jersey, in whatever sport it is."*[220]

**220.** Mynegodd sefydliadau chwaraeon bryder yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu am effaith buddsoddiad annigonol mewn cyfleusterau, ar bob lefel, o'r pwll nofio lleol i gyfleusterau hyfforddi o'r radd flaenaf.

> *"Mae 25 mlynedd ers i unrhyw beth tebyg i gyfleuster hyfforddi o'r radd flaenaf weld unrhyw fuddsoddiad, na chael ei adeiladu, yng Nghymru, ac eto rydym yn disgwyl i'n hathletwyr allu perfformio ac ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol… Mae posibilrwydd gwirioneddol y bydd hyn yn cael effaith ddi-droi'n-ôl ar ein hathletwyr perfformio."*

---

[216] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 227
[217] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 07 Sboncen Cymru [Saesneg yn unig]
[218] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 47 Athletau Cymru (Saesneg yn unig)
[219] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 02 Gymnasteg Cymru (Saesneg yn unig)
[220] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 245

## Gwersi nofio a nofio mewn ysgolion

**221.** Clywsom fod nofio mewn ysgolion yn ei sefyllfa waethaf ers dros genhedlaeth oherwydd llai o gyllid a chostau uwch.[221] Dywedodd Nofio Cymru wrthym y gallai effeithiau di-droi'n-ôl llai o gyllid arwain at genhedlaeth o ddysgwyr a gollwyd ac, yn y pen draw, risg uwch o farwolaethau drwy foddi.[222]

**222.** Bu gostyngiad yn nifer y plant sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni nofio ysgolion, gyda dim ond 41 y cant o blant Blynyddoedd 3-6 yn gallu nofio 25 metr heb gymorth ym mlwyddyn academaidd 2022/23.[223]

**223.** Yn ôl Nofio Cymru:

> *"the current demographic in swimming lessons is white middle-class, and any attempts from Swim Wales and its national partners to make swimming lessons accessible to all has been made extremely difficult due to reductions in funding and increased costs."*[224]

**224.** Nododd Cymdeithas Chwaraeon Cymru fod y gostyngiad yn nifer y plant sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni nofio ysgolion oherwydd na all ysgolion fforddio trafnidiaeth.[225]

**225.** Galwodd Nofio Cymru[226] a Chyngor Gwynedd[227] ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i ddysgu nofio fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru. Esboniodd Nofio Cymru ei fod wedi pennu pris am y cynnig nofio i bawb mewn ysgolion, gan gynnwys trafnidiaeth, sef £4.4 miliwn y flwyddyn, gan nodi nad yw hwn yn bris gormodol. Nodwyd y byddai'n magu hyder plant, yn datblygu eu llythrennedd corfforol ar gyfer chwaraeon eraill, yn ogystal â rhoi sgil bywyd iddynt.[228]

**226.** Dywedodd y Gweinidog wrthym ei fod yn ymwybodol y bu gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n gallu nofio erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd. Dywedodd

[221] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 37 Nofio Cymru (Saesneg yn unig)
[222] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 37 Nofio Cymru (Saesneg yn unig)
[223] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 37 Nofio Cymru (Saesneg yn unig)
[224] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 37 Nofio Cymru [Saesneg yn unig]
[225] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 206
[226] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 37 Nofio Cymru [Saesneg yn unig]
[227] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 20 Cyngor Gwynedd
[228] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 261

fod materion sy'n ymwneud â chyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn fater i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, ond ei fod yn "awyddus i archwilio cyfleoedd ar draws y llywodraeth i weld a ellir gwneud mwy".[229]

## Y Gymraeg a llythrennedd

**227.** Clywsom bryderon am effeithiau toriadau i'r diwydiant cyhoeddi ar y Gymraeg a llythrennedd.

**228.** Dywedodd y Cyngor Llyfrau wrthym mai darllen yw'r sylfaen i ddatblygu sgiliau iaith.[230] O ran dysgwyr Cymraeg, dywedodd y Cyngor Llyfrau mai llyfrau i ddysgwyr Cymraeg sy'n cael eu gwerthu fwyaf bron bob mis. Esboniodd ei fod wedi gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddatblygu llyfrau addas, a'i fod yn eu hyrwyddo drwy'r rhaglen gyfan ar gyfer dysgwyr Cymraeg.[231] O ran plant, dywedodd fod unrhyw lyfr yn adnodd addysgol, ond bod llawer o waith hefyd wedi'i wneud i ddatblygu llyfrau dwyieithog sy'n addas i rieni sydd wedi dechrau dysgu Cymraeg i gefnogi eu plant, heb dynnu sylw oddi wrth y Gymraeg.[232]

**229.** Galwodd y Cyngor Llyfrau ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn prynu llyfrau, am fod ysgolion sydd heb ddim llyfrau. Yn ôl y Cyngor Llyfrau, byddai ymyrraeth o'r fath yn cefnogi cynnyrch sy'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru; yn cefnogi ysgolion a dysgwyr ifanc; ac yn cefnogi gwerthwyr llyfrau lleol.[233]

**230.** Dywedodd y Cyngor Llyfrau hefyd wrthym fod gan Lywodraeth Cymru rôl gwbl hanfodol i'w chwarae i ddatblygu strategaeth sydd o ddifrif am wneud Cymru yn genedl o ddarllenwyr.[234] Dywedodd nad oes diben cyhoeddi llyfrau os nad oes neb yn eu darllen ac felly galwodd am ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth tuag at raglen ddarllen barhaus sy'n cynnwys ysgolion, llyfrgelloedd a rhanddeiliaid eraill, ac sy'n trin y ddwy iaith yn gyfartal.[235]

---

[229] Pwyntiau gweithredu.pdf
[230] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 185
[231] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 186
[232] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 187
[233] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 202
[234] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 203
[235] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 203

**231.** Nododd Cyngor Gwynedd y gallai diwedd y gwasanaeth llyfrgelloedd ar gyfer ysgolion effeithio ar ddarllen mewn ysgolion.[236]

**232.** Tynnodd cyhoeddwyr yn nigwyddiad bord gron y Pwyllgor sylw at y rôl y gallai sector cyhoeddi Cymraeg ffyniannus ei chwarae wrth fynd i'r afael â phroblem llythrennedd Cymru a chyrraedd targed Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr erbyn y flwyddyn 2050.[237]

**233.** Dywedodd y Gweinidog fod y diwydiant cyhoeddi yn chwarae, ac y bydd yn parhau i chwarae, rôl allweddol wrth gefnogi gwelliannau llythrennedd a'r Gymraeg. Roedd yn cydnabod bod y diwydiant wedi wynebu heriau:

> *"Recognising the challenges more generally in the industry, it's a discussion I've already had with my officials in Creative Wales about how we can support them, going forward. We'll see what budgets look like and how I can do that."*[238]

**234.** Ymrwymodd hefyd i drafod goblygiadau toriadau cyllid i'r sector cyhoeddi ar gyfer llythrennedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

## Ein barn ni

**235.** Mae'r sectorau diwylliant a chwaraeon yn fregus a heb ddigon o adnoddau sydd wedi arwain at fynediad annigonol at ddiwylliant a chwaraeon ledled y wlad, sy'n tanseilio ymdrechion i ehangu mynediad gan ein cyrff cenedlaethol. Mae'r mynediad annigonol hwn yn debygol o greithio ffrwyth gwaith diwylliant a chwaraeon Cymru am flynyddoedd i ddod, oherwydd bydd llai o artistiaid a phencampwyr yfory wedi cael y cychwyn a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i lwyddo. Nid moethau ar gyfer cyfnodau llewyrchus yn unig mo diwylliant a chwaraeon. Maent yn edafedd hanfodol yng ngwead yr hyn sy'n gwneud bywyd yn werth ei fyw. Mae'r seilwaith cymdeithasol y mae diwylliant a chwaraeon yn ei feithrin yr un mor bwysig i genedl â'i seilwaith trafnidiaeth a chyfathrebu, ond mae wedi'i esgeuluso gan Lywodraethau Cymru dro ar ôl tro.

**236.** Mae diffyg buddsoddi mewn cyfleusterau ac mewn meithrin arweinwyr y dyfodol yn bygwth cynaliadwyedd a thwf sectorau'r celfyddydau a chwaraeon.

[236] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 24 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 104
[237] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Trafodaeth bord gron gyda'r diwydiant cyhoeddi, Rhagfyr 2024
[238] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 179

Rydym yn pryderu bod cyfranogiad yn dod yn fwy elitaidd a bod pobl ifanc dalentog yn cael eu hamddifadu o gyfleoedd i archwilio eu doniau a chynrychioli Cymru ar lwyfan y byd.

**237.** Clywsom fod cymunedau gwledig ac economaidd-gymdeithasol isel yn wynebu mwy o rwystrau o ran mynediad at chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol, ac mae hynny'n gwaethygu anghydraddoldebau cymdeithasol. At hynny, mae'r cymorth a'r darpariaethau i gymunedau amrywiol wedi gwanhau, ac mae hynny'n cyfyngu ar gynhwysiant a chydlyniant cymdeithasol.

**238.** Dylai pawb allu cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol. Gall cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn gefnogi nodau cymdeithasol ehangach, a meithrin dawn y dyfodol. Credwn y gellir gwneud mwy ar draws y llywodraeth ac awdurdodau lleol i wneud y mwyaf o effaith gymdeithasol diwylliant a chwaraeon. Bwriad yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yw gwella cynaliadwyedd ariannol diwylliant a chwaraeon ac, yn eu tro, hybu ac ehangu cyfranogiad. Hwn hefyd oedd nod ein hymchwiliad blaenorol i gymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig.

**239.** Rydym yn pryderu bod nofio mewn ysgolion yn ei sefyllfa waethaf ers dros genhedlaeth oherwydd llai o gyllid a chostau uwch. O ystyried pwysigrwydd nofio fel sgil bywyd, credwn y dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad o gyflwr nofio mewn ysgolion, gan gynnwys y cyfleusterau a'r drafnidiaeth sydd ar gael. Yna, dylai roi cynllun ar waith i wella'r sefyllfa hon. Rydym hefyd yn nodi y gall seilwaith a chostau teithio, yn ogystal â lleoliad cyfleusterau, fod yn rhwystr rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon eraill, yn ogystal â nofio.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth nofio mewn ysgolion i sicrhau bod plant sy'n gadael yr ysgol gynradd yn gallu nofio. Dylai'r strategaeth hon gydnabod pwysigrwydd darparu digon o gyfleusterau a thrafnidiaeth.

**240.** Rydym hefyd yn pryderu'n fawr am yr heriau y mae'r diwydiant cyhoeddi yn eu hwynebu yng Nghymru a'r goblygiadau y gallai cyhoeddi llai o lyfrau eu cael ar ddysgwyr Cymraeg a sgiliau llythrennedd plant. Rydym yn annog y Gweinidog i gynnal trafodaethau gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ynghylch sut i sicrhau nad yw gostyngiadau cyllid yn cael effaith negyddol ar lythrennedd pobl Cymru ac uchelgais Llywodraeth Cymru, sef miliwn o siaradwyr.

**241.** Mae'r sector cyhoeddi yn gwneud cyfraniad hanfodol i ddiwylliant Cymru. Rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn y cyllid i'r sector dros y degawd diwethaf, nes bod ei allu i gyhoeddi dan fygythiad. O gofio bod "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu" yn un o nodau llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, ni ellir tanbrisio pwysigrwydd buddsoddi yn niwylliant Cymru. Felly, credwn y dylai Llywodraeth Cymru werthuso pa mor briodol yw ei buddsoddiad presennol yn y sector, a hynny ar frys.

**Argymhelliad 10.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ymateb i bryderon y sector cyhoeddi ac ystyried cynyddu'r cyllid y mae'n ei roi i'r sector.

**Casgliad 3.** Dylai'r Gweinidog Sgiliau, Diwylliant a Phartneriaeth Gymdeithasol gynnal trafodaethau ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ynghylch sut y gall y sector cyhoeddi helpu i wella llythrennedd pobl Cymru a chefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru, sef miliwn o siaradwyr.

# 5. Ymyriadau Llywodraeth Cymru

## Strategaeth ddiwylliant

**242.** Dros yr haf, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei Blaenoriaethau Diwylliant drafft, yn sgil ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i "ddatblygu strategaeth ddiwylliant newydd". Gwnaethom ddarparu ymateb y Pwyllgor i'r ymgynghoriad hwn.[239]

**243.** Nodir fel a ganlyn ym mhapur tystiolaeth Llywodraeth Cymru:

> *"Mewn ymateb i'r gostyngiadau uniongyrchol yn y gyllideb, ailgyfeiriwyd £2m o gyllid refeniw, a ddyrannwyd i gyflawni'r Strategaeth Ddiwylliant yn 2024-25, i liniaru effaith colli swyddi yn Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a'r sector celfyddydau ehangach."*[240]

**244.** Roedd Cyngor Gwynedd, er ei fod yn croesawu'r blaenoriaethau a'r dyheadau yn y Blaenoriaethau Diwylliant drafft, yn galw am sicrhau cyllid digonol a chydweithio effeithiol yn y strategaeth i alluogi'r llywodraeth, awdurdodau lleol a'r sector i gyflawni'r blaenoriaethau.[241]

**245.** Mynegodd CCC siom nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi strategaeth, ond set o egwyddorion yn lle hynny. Yn ôl CCC, roedd y sector o'r farn ei bod ychydig yn anuchelgeisiol ond yn adlewyrchu'r hinsawdd economaidd sydd ohoni.[242] Roedd Equity ar y llaw llall wedi nodi nad yw'n addas i'r diben. Galwodd am y canlynol:

> *"a transformative Culture Strategy providing tangible financial support to struggling sectors and meaningful narrative for developing and sustaining the workforce."*[243]

---

[239] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant, Cyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip: Darparu ymateb y Pwyllgor i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Flaenoriaethau Drafft ar gyfer Diwylliant yng Nghymru 2024 i 2030, 3 Medi 2024
[240] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig, Tachwedd 2024
[241] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 20 Cyngor Gwynedd
[242] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 283
[243] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 03 Equity (Saesneg yn unig)

**246.** Nododd Undeb y Cerddorion bryderon sylweddol am y strategaeth ddrafft:

> *"particularly it's lack of information and focus on professional performers and the workforce, and the timing, given that it is being consulted on a year after the ACW investment review while there is a crisis developing in Welsh music."*[244]

**247.** Dywedodd y Gweinidog wrthym y bydd y strategaeth ddiwylliant yn gyfrwng pwysig i sicrhau sector bywiog a diogel at y dyfodol ym mhob maes ar draws y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon.[245]

## Llythyrau Cylch Gwaith

**248.** Yn gyffredinol, llythyrau cylch gwaith a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru sy'n llywio cyrff a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn y sector chwaraeon a diwylliant yn eu defnydd o gyllid cyhoeddus. Mae'r llythyrau cylch gwaith hyn yn nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i sefydliadau ei wneud â'r cyllid y mae'n ei roi iddynt.

**249.** Clywsom, er enghraifft gan y Comisiwn a Chwaraeon Cymru, fod y gofynion mewn llythyrau cylch gwaith wedi cynyddu neu wedi aros yr un fath wrth i'r cyllid mewn termau real ostwng. Pe bai'n wynebu toriad ychwanegol, dywedodd CCC y byddai rhaid iddo ailystyried faint y gall ei gyflawni o ran y llythyr cylch gwaith, ac y byddai angen "[t]rafodaethau eithaf gonest ac agored gyda'r Llywodraeth".[246] Yn yr un modd, nododd Chwaraeon Cymru na fydd yn bosibl cyflawni rhai pethau gofynnol.[247]

**250.** Yn ôl y Comisiwn, nid yw'n cael cyllid digonol am y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddo ei wneud:

> *"It needs to be emphasised that we have demanding KPIs from Welsh Government that relate to the climate emergency, community engagement, social justice, education, health and wellbeing, engaging with young people and more but our core funding is not sufficient to enable us to deliver any of these"*[248]

[244] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 44 Undeb y Cerddorion [Saesneg yn unig]
[245] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 23
[246] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 173
[247] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 41 Chwaraeon Cymru
[248] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 40 CBHC (Saesneg yn unig)

**251.** Galwodd y Comisiwn ar Lywodraeth Cymru i nodi un sefydliad i arwain ar amcan cyflawni penodol, yn hytrach na rhoi'r un amcanion i'r holl gyrff a noddir.[249]

**252.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod trafodaeth â chyrff hyd braich ar effaith gostyngiadau cyllid mewn perthynas â llythyrau cylch gwaith. Dywedodd y canlynol:

> *"Yn y trafodaethau hyn, gwnaethom gydnabod yr heriau sy'n wynebu'r sefydliadau hyn ac, o ganlyniad, fod angen gosod amcanion mwy realistig mewn perthynas â sut maent yn cyflawni yn erbyn eu Llythyrau Cylch Gwaith wrth symud ymlaen."*[250]

## Cyfrifoldeb am ariannu cwmnïau perfformio cenedlaethol

**253.** Yn yr Alban, ers 2007 mae cwmnïau perfformio cenedlaethol wedi cael eu hariannu gan y Llywodraeth yn hytrach na Chyngor y Celfyddydau. Yng Nghymru, mae cwmnïau cenedlaethol yn cael eu hariannu gan CCC, ac yn cystadlu am gyllid yn ei adolygiadau buddsoddi â sefydliadau celfyddydol eraill o wahanol feintiau. Galwodd Undeb y Cerddorion ar Lywodraeth Cymru i ystyried sut mae sefydliadau diwylliannol yn cael eu hariannu a'u rheoli, gan nodi anghydbwysedd cyfredol rhwng sefydliadau diwylliannol o bwys cenedlaethol ac eraill sy'n cael eu hariannu drwy gorff hyd braich.[251]

**254.** Wrth ateb y cwestiwn o ran a ddylai sefydliadau cenedlaethol gael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn lle hynny, dywedodd CCC y canlynol:

> *"I think the argument that has been discussed in the past is that if the national companies are funded directly from Government, there is an additional strain of how do you make sure that you have a strategic arts policy across every element of the arts in Wales, and having the nationals and everyone else within the same strategy makes it clearer in terms of giving guidance, in terms of impact, in terms of reaching the audience you want to reach …*

[249] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 221
[250] Llywodraeth Cymru, Camau gweithredu a chwestiynau nad oedd amser i'w holi
[251] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 44 Undeb y Cerddorion [Saesneg yn unig]

*I think Scotland is not in a good place in terms of the arts currently. I think that there are strains there. Recently, the Scottish Government withdrew funding for individual artists. Creative Scotland then said, 'Okay, we can't fund them.' The Scottish Government then changed their mind. There's also been a promise in Scotland of an additional £100 million, I think, over the next five-year term, but my colleagues in Scotland say they've not seen any of that money. So, Scotland is probably not the best example to use at this point in time."*[252]

**255.** Nododd sefydliadau a gymerodd ran yn ein gweithgareddau ymgysylltu effaith y toriadau i gyllid refeniw CCC ar sut mae'n gweithio gyda sefydliadau a'r cymorth cyfyngedig y gall ei gynnig a'i eirioli ar eu rhan, ar adeg pan fydd ei angen fwyaf. Dywedodd cyfranogwyr y canlynol:

*"Rydyn ni'n gweld llai o lawer ohonyn nhw… Tua chwe, saith mlynedd yn ôl, roedden ni'n arfer trafod ein gwaith a'n cynlluniau gwaith… Roedd y sgwrs honno'n bwysig i ni, ond dydy hynny ddim digwydd mwyach."*

*"Mae cymaint o wybodaeth sefydliadol wedi'i cholli… roeddem yn dibynnu ar y cysylltiadau hynny a'r hyrwyddo hwnnw gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae angen cydnabyddiaeth bod angen ariannu Cyngor y Celfyddydau er mwyn iddo allu ein cefnogi ninnau hefyd."*

**256.** Mynegodd Llenyddiaeth Cymru bryder nad oes gan CCC y capasiti mwyach i fod yn gwbl wybodus am y sector ac o ganlyniad ni all eirioli drosto'n effeithiol. Dywedwyd y canlynol:

*"Mae yna ymdeimlad o fewn y sector gelfyddydol bod Cyngor y Celfyddydau dan bwysau, ac na ddylid tarfu arnynt oni bai fod hynny'n gwbl angenrheidiol. Nid yw perthynas fel hyn yn beth iach yn yr hir dymor. Rydym yn dal i aros am eu Cynllun Strategol hwyr i helpu i'n harwain fel sector, a chynllun neu ganllawiau ar gyfer y sector cyfan ar eirioli dros y celfyddydau."*[253]

[252] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 276-277
[253] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 31 Llenyddiaeth Cymru

**257.** Galwodd Opera Canolbarth Cymru, yr oedd CCC wedi torri ei gyllid, ar Lywodraeth Cymru i "gynnal adolygiad trylwyr o'r ffordd y caiff CCC ei lywodraethu a'i weithredu", gan nodi ei farn bod:

> *"eu blaenoriaethau yn anwybyddu persbectif cynulleidfaoedd a darpar gynulleidfaoedd yn llwyr, o blaid pwyslais ar waith arbrofol sy'n apelio at elît cul o weithwyr proffesiynol y celfyddydau metropolitanaidd yn unig."*[254]

**258.** Yn ôl Canolfan Grefft Rhuthun, mae angen i CCC edrych yn radical ar y ffordd y mae'n dyrannu ei gyllid. Mae'n credu bod gan sefydliadau mwy fel Opera Cenedlaethol Cymru a Cherddorfa Genedlaethol Cymru fwy o botensial i godi arian i dalu eu costau eu hunain, a allai ryddhau rhagor o gyllid i CCC edrych ar lefel fwy cytbwys o gymorth ar draws ei bortffolio.[255]

**259.** Dywedodd CCC wrthym fod ganddo berthynas dda iawn â'r sector. Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid eraill, dywedodd y canlynol:

> *"…working together, we can improve. I'm sympathetic to it, but we need a sense of reality here in terms of what the cuts actually mean as well.*[256]

**260.** Mae ei dystiolaeth ysgrifenedig yn nodi ei fod yn gwrando ar y sector i nodi sut y gall ei gefnogi'n fwy effeithiol:

> *"We are reflecting and discussing internally/with our sector partners what the long-term needs of the sector are and how we can best respond/change our offer […] We have commissioned an economic impact assessment of our work to help inform future funding considerations and strategy."*[257]

**261.** Cyhoeddwyd yr asesiad effaith economaidd hwn ym mis Tachwedd 2024 ac roedd yn dangos bod £2.51, am bob £1 o gyllid cyhoeddus a gafwyd gan CCC, wedi mynd yn ôl i'r economi yn 2023/24.[258]

[254] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 23 Opera Canolbarth Cymru
[255] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 10 Canolfan Grefft Rhuthun [Saesneg yn unig]
[256] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 225
[257] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 35 Cyngor Celfyddydau Cymru [Saesneg yn unig]
[258] Cyngor Celfyddydau Cymru, Adroddiad Effaith Economaidd, Hydref 2024

**262.** Dywedodd y Gweinidog wrthym nad oes cynlluniau i ariannu cwmnïau celfyddydau cenedlaethol yn uniongyrchol ac mai CCC sydd "yn y sefyllfa orau" i ddosbarthu cyllid, gan weithio o dan y fframwaith strategol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.[259]

## Cymorth strategol

**263.** Galwodd Undeb y Cerddorion[260] a Creu Cymru am gymorth strategol y tu hwnt i gyllid gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd Creu Cymru y canlynol:

> *"the Welsh Government could offer strategic assistance in areas like capital funding, sustainability, capacity building, digital transformation, and fostering collaborations across sectors."*[261]

**264.** Galwodd Pedr ap Llwyd, cyn-Brif Weithredwr y Llyfrgell, hefyd am ragor o gymorth strategol ac i Lywodraeth Cymru gryfhau ei pherthynas â'r Llyfrgell. Dywedodd y canlynol:

> *"Dim ond dau gyfarfod y flwyddyn a gefais gyda'r gweinidog perthnasol, pob un yn para dim ond tri deg munud, a thrwy gydol y cyfnod hwnnw, ni ymwelodd prif swyddog diwylliant y Llywodraeth â'r Llyfrgell o gwbl. Roedd y diffyg ymgysylltu ystyrlon hwn yn atal dealltwriaeth lawn o'r heriau yr oedd y Llyfrgell yn eu hwynebu, yn ogystal â'r cyfleoedd yr oedd yn gallu eu cynnig."*[262]

**265.** Galwodd Cyngor Gwynedd ar Lywodraeth Cymru i hwyluso perthynas well rhwng ei chyrff a ariennir ac awdurdodau lleol a'r sector ehangach.[263] Galwodd CCC am ragor o weithio mewn partneriaeth o fewn y llywodraeth fel ei fod, wrth drafod ei gyllideb bosibl, yn edrych ar ei gyfraniad ar draws adrannau, yn hytrach nag mewn un adran yn unig.[264] Galwodd Chwaraeon Cymru hefyd am ragor o gymorth i weithio ar draws y llywodraeth.[265]

---

[259] Llywodraeth Cymru, Camau gweithredu a chwestiynau nad oedd amser i'w holi, 13 Tachwedd 2024
[260] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 44 Undeb y Cerddorion [Saesneg yn unig]
[261] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 25 Creu Cymru [Saesneg yn unig]
[262] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 14 Pedr ap Llwyd
[263] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 20 Cyngor Gwynedd
[264] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 267
[265] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 120

**266.** Byddai Canolfan Grefft Rhuthun yn croesawu dealltwriaeth well gan Weinidogion Cymru o'r sector y maent yn gyfrifol amdano:

> *"what we would ask for – which is achievable – is for ministers to adopt a modest acceptance of their lack of in-depth knowledge and understanding and a willingness to listen to and take advice from specialists who have a deep understanding of the sector and from the arts bodies themselves."*[266]

**267.** Galwodd y Llyfrgell[267] a'r Comisiwn[268] am Ysgrifennydd Cabinet â chyfrifoldeb dros ddiwylliant. Dywedodd CCC hefyd y byddai'n croesawu cael Gweinidog llawn, bod y statws yn bwysig a bod Gweinidogion llawn yn cael mwy o sylw a mwy o lais yn y Cabinet.[269] Dywedodd Creu Cymru y byddai'n wych petai Gweinidog celfyddydau i edrych ar y celfyddydau yn unig a dim byd arall.[270]

**268.** Cydnabu'r Gweinidog fod angen i Lywodraeth Cymru ystyried ariannu sefydliadau'n well, ond ychwanegodd fod angen i'r sefydliadau hynny ystyried gwneud pethau'n wahanol hefyd.[271]

## Oriel celf gyfoes genedlaethol

**269.** Yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol yw prosiect Llywodraeth Cymru i sefydlu rhwydwaith o orielau i rannu ac arddangos celf gyfoes. Cyhoeddwyd adroddiad gennym ar y prosiect ym mis Rhagfyr 2023, gan godi pryderon am gyllid parhaus ar gyfer y prosiect.[272] Mewn gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2024, nodwyd mai £400,000 yw costau refeniw parhaus yr oriel o fis Ebrill 2025 ymlaen, gan godi i £550,000 erbyn blwyddyn deg. Yn y llythyr, nodwyd y canlynol:

---

[266] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 10 Canolfan Grefft Rhuthun (Saesneg yn unig)
[267] Tystiolaeth ysgrifenedig, IFRCS 52 Llyfrgell Genedlaethol Cymru
[268] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 9 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 331
[269] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 273
[270] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 17 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 131
[271] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 64
[272] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru, Rhagfyr 2023

> *"Mae'r cynllun codi arian yn nodi ffynonellau cyllid posibl o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys £100,000 gan Gronfeydd Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru a £100,000 gan ymddiriedolaethau a sefydliadau gyda'r £200,000 sy'n weddill i ddod o ffynonellau cyhoeddus eraill, sydd eto i'w nodi."*[273]

**270.** Roedd astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol Llywodraeth Cymru yn 2018 yn rhagamcanu mai tua £2.7 miliwn, neu ryw bum gwaith yn fwy, fyddai costau refeniw blynyddol y rhwydwaith gwasgaredig. Mewn gohebiaeth, dywedodd Amgueddfa Cymru y canlynol:

> *"Rydym wedi cyflwyno Achos Busnes i Lywodraeth Cymru sy'n gofyn am gyllid o £560k ar gyfer 2025-27, i hwyluso'r gwaith o ddarparu'r rhaglen yn barhaus ac i dalu costau craidd hanfodol yn ymwneud â chadwraeth, rhaglenni dysgu, cyngor a chymorth benthyciadau a chymorth technegol. Mae'r costau hyn hefyd yn cynnwys staff NCAGW yn Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol. Nid yw hyn yn rhywbeth sydd wedi'i gynnwys yng nghyllid presennol Grant mewn Cymorth yr Amgueddfa."*[274]

**271.** Dywedodd y Llyfrgell wrthym fod yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol "yn destun trafod eithaf dwys ar y funud" i weld pa elfennau y gellir parhau â hwy heb gyllid ychwanegol ar gyfer parhad y prosiect, a pha lefel o gyllid posibl fyddai'n gallu darparu lefelau gwahanol o barhad i'r prosiect. Dywedodd ei bod yn awyddus i barhau i gefnogi'r prosiect "sydd yn ehangu mynediad i gasgliadau i bobl Cymru".[275]

**272.** Dywedodd CCC wrthym na all roi £400,000 i'r oriel celf genedlaethol o ystyried y toriadau cyllid diweddar.[276] Dywedodd fod pob partner o gwmpas y bwrdd wedi bod yn gyson wrth ddweud bod angen i nawdd y Llywodraeth barhau er mwyn i'r prosiect barhau.

---

[273] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip ynghylch Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru, 26 Gorffennaf 2024, Atodiad 1
[274] Llythyr oddi wrth Amgueddfa Cymru yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon, 18 Hydref 2024
[275] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 119
[276] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 26 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 290

**273.** Dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> *"Mae trafodaethau'n parhau â phartneriaid y prosiect ar y cyllid sydd ei angen a ffynonellau posibl, i gefnogi'r broses bontio o gwblhau'r buddsoddiad cyfalaf i'r gwaith cyflawni, a chostau gweithredu/rhedeg y model gweithredu yn y dyfodol. Mae'r trafodaethau hyn yn adlewyrchu'r angen i'r partneriaid ymgymryd â menter newydd, ar ôl amsugno'r gostyngiadau yn ddiweddar i linellau sylfaen cymorth grant."*

**274.** Ychwanegodd y bydd y model cyflawni yn y dyfodol yn ceisio lleihau'r ddibyniaeth ar gyllid Llywodraeth Cymru ac y bydd yn bwysig i bartneriaid sicrhau cyllid allanol.[277]

## Ein barn ni

**275.** Mae llythyrau cylch gwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer y sefydliadau diwylliant a chwaraeon a ariennir ganddi yn dangos uchelgais glodwiw o ran yr hyn y gall y sefydliadau hyn ei gyflawni y tu hwnt i'w dibenion craidd. Maent yn ymdrin â meysydd sy'n cynnwys gofal iechyd, y Gymraeg, gweithredu ar newid hinsawdd, addysg, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, diplomyddiaeth ryngwladol ac adfywio economaidd. Mae'r ystod hon yn dangos y cyfraniad y gall y sectorau hyn ei wneud pan gânt eu hariannu'n dda. Fodd bynnag, nid ydym yn credu ei bod yn ymarferol bod gofynion Llywodraeth Cymru wedi aros yr un fath tra bo'r cyllid a ddarperir iddynt wedi gostwng mewn termau real. Rydym hefyd yn amau gwerth cynnwys nodau eang mewn llythyrau cylch gwaith, yn hytrach na gofynion pendant y gellir eu cyflawni.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu llythyrau cylch gwaith y sefydliadau a ariennir ganddi yn sgil y gostyngiadau yn eu cyllid mewn termau real. Dylai'r gofynion yn y llythyrau cylch gwaith fod yn glir ac yn bendant, ac yn gymesur â lefel y cyllid.

**276.** Galwodd rhai tystion ar Lywodraeth Cymru i gyllido sefydliadau celfyddydau cenedlaethol yn uniongyrchol, yn hytrach na thrwy Gyngor y Celfyddydau. Mae hwn yn gwestiwn cymhleth, sy'n haeddu dadansoddiad pellach, dyfnach. Mae dadl bod ffocws gwleidyddion ar yr argyfwng y mae Opera Cenedlaethol Cymru yn ei wynebu yn tynnu sylw at y tyndra amlwg yn y corff hwn sy'n cael ei ariannu

[277] Llywodraeth Cymru, Camau gweithredu a chwestiynau nad oedd amser i'w holi, 13 Tachwedd 2024

gan elusen annibynnol: mae'n fwy cyffredin i sefydliadau o bwys cenedlaethol gael eu hariannu gan lywodraeth genedlaethol, y gellir ei dwyn i gyfrif mewn senedd genedlaethol. Credwn nad yw'r cwestiwn o ran pwy sy'n ariannu cwmnïau cenedlaethol yn fater deuaidd, nac mai Cyngor y Celfyddydau neu Lywodraeth Cymru yw'r unig ateb. Mae trydedd ffordd bosibl a fyddai'n golygu bod cyllid craidd i'r cwmnïau hyn yn dod oddi wrth Gyngor y Celfyddydau a bod cyllid ychwanegol yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru i gydnabod arwyddocâd cenedlaethol a rhyngwladol eu gwaith. Er nad oes gennym farn sefydlog am y trefniant ariannu mwyaf addas, credwn fod y mater yn haeddu dadansoddiad pellach gan Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru ddadansoddi'r model mwyaf addas ar gyfer ariannu cwmnïau celfyddydau cenedlaethol: boed gan Gyngor Celfyddydau Cymru (y model presennol), Llywodraeth Cymru, neu gyfuniad o'r ddau.

**277.** Rydym yn pryderu am y diffyg uchelgais ac eglurder ynghylch cyllid ar gyfer prosiect Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae disgwyl i gyllid allanol dalu costau refeniw parhaus un o brosiectau Llywodraeth Cymru yn ymddangos yn optimistaidd ac yn fethiant i ysgwyddo cyfrifoldeb. Mae nod y prosiect, sef cynnig mynediad at gelf gyfoes ledled y wlad, i'w ganmol. Ond mae'r diffyg ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru yn golygu nad yw'n ystyrlon galw'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol yn sefydliad cenedlaethol. Os yw Llywodraeth Cymru yn ddiffuant ynglŷn â bwrw ymlaen â'r prosiect, dylai nodi ei bod yn bwriadu gwneud hynny a sut y bydd yn ei ariannu.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â phrosiect yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, gan gynnwys sut y bydd yn cael ei ariannu.

# Atodiad 1: Cyllid diwylliant i Gymru o'i gymharu â gwledydd Ewrop.

Yn yr atodiad hwn trafodir y dulliau a ddefnyddir i gymharu cyllid diwylliant ar gyfer amrywiaeth o wledydd gan ddefnyddio data gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Cyllideb Llywodraeth Cymru a data o'r adroddiad The State of the Arts. Bydd yr holl ddata yn seiliedig ar y flwyddyn 2022, sef y data diweddaraf y gellir eu cymharu ar draws gwledydd.

## Diffiniadau

Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddwy adran o gyllid, sef cyllid chwaraeon a chyllid diwylliant. Yn yr adroddiad, er mwyn sicrhau ein bod yn cymharu ar sail debyg, defnyddir y diffiniadau a ganlyn o'r Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth.

- 8.1: Gwasanaethau hamdden a chwaraeon
    - Darparu gwasanaethau chwaraeon a hamdden;
    - Gweinyddu materion chwaraeon a hamdden;
    - Goruchwylio a rheoleiddio cyfleusterau chwaraeon;
    - Gweithredu neu gefnogi cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau neu ddigwyddiadau chwaraeon gweithredol (caeau chwarae, cyrtiau tennis, cyrtiau sboncen, traciau rhedeg, cyrsiau golff, sgwariau bocsio, cylchoedd sglefrio, campfeydd, ac ati);
    - Gweithredu neu gefnogi cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau neu ddigwyddiadau chwaraeon goddefol (yn bennaf lleoliadau sydd wedi'u cyfarparu'n arbennig ar gyfer chwarae cardiau, gemau bwrdd, ac ati);
    - Gweithredu neu gefnogi cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau hamdden (parciau, traethau, meysydd gwersylla a mannau llety cysylltiedig wedi'u dodrefnu ar sail anfasnachol, pyllau nofio, baddonau cyhoeddus ar gyfer ymolchi, ac ati);
    - Grantiau, benthyciadau neu gymorthdaliadau i gefnogi timau neu gystadleuwyr neu chwaraewyr unigol. Yn cynnwys: cyfleusterau ar gyfer llety gwylwyr; cynrychiolaeth tîm cenedlaethol, rhanbarthol neu leol mewn digwyddiadau chwaraeon. Ac eithrio: gerddi sŵolegol neu fotanegol, acwaria, coederddi a sefydliadau tebyg (08.2.0);
    - Cyfleusterau chwaraeon a hamdden sy'n gysylltiedig â sefydliadau addysgol (wedi'u dosbarthu i'r dosbarth priodol o Adran 09).

- 8.2: Gwasanaethau diwylliannol
    - Darparu gwasanaethau diwylliannol;
    - Gweinyddu materion diwylliannol;
    - Goruchwylio a rheoleiddio cyfleusterau diwylliannol;
    - Gweithredu neu gefnogi cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau diwylliannol (llyfrgelloedd, amgueddfeydd, orielau celf, theatrau, neuaddau arddangos, henebion, tai a safleoedd hanesyddol, gerddi sŵolegol a botanegol, acwaria, coederddi ac ati);
    - Cynhyrchu, gweithredu neu gefnogi digwyddiadau diwylliannol (cyngherddau, cynyrchiadau llwyfan a ffilm, sioeau celf, ac ati);
    - Grantiau, benthyciadau neu gymorthdaliadau i gefnogi artistiaid, awduron, dylunwyr, cyfansoddwyr unigol ac eraill sy'n gweithio yn y celfyddydau neu i sefydliadau sy'n ymwneud â hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol. Yn cynnwys: dathliadau cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, ar yr amod nad eu prif bwrpas yw denu twristiaid. Ac eithrio: digwyddiadau diwylliannol y bwriedir eu cyflwyno y tu hwnt i ffiniau cenedlaethol (01.1.3);
    - Dathliadau cenedlaethol, rhanbarthol neu leol y bwriedir yn bennaf iddynt ddenu twristiaid.
    - Cynhyrchu deunydd diwylliannol y bwriedir ei ddosbarthu drwy ddarlledu (08.3.0).

Mae cyfanswm gwariant y llywodraeth ar gyfer pob adran o'r Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth wedi cael ei ddefnyddio yn yr ystadegau yn y ddogfen hon. Mae i gyfanswm gwariant y llywodraeth yr elfennau a ganlyn:

- Gwariant y llywodraeth ganolog: Holl unedau'r llywodraeth sy'n ymestyn dros y wlad gyfan.
- Gwariant llywodraeth y wladwriaeth: Unedau o'r llywodraeth sy'n rheoli ardaloedd gwladwriaeth y mae gwlad wedi'i rhannu ynddynt.
- Gwariant y llywodraeth leol: Mae'r llywodraeth leol yn darparu ystod eang o wasanaethau i breswylwyr lleol.

## Methodoleg a chafeatau

Mae'r fethodoleg ar gyfer yr ystadegau yn y ddogfen hon yn fethodoleg debyg a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad The State of the Arts a luniwyd gan Campaign for the Arts a Phrifysgol Warwig. Sylwer bod y graffiau isod yn seiliedig ar wariant fesul person mewn £ (Ffigur 3) ond bod y graffiau yn yr adroddiad The State of the Arts mewn $ fesul person.

Mae'r data ar gyfer gwledydd eraill yn dod o dabl gwariant blynyddol y llywodraeth yn ôl swyddogaeth (Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth) y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd lle canolbwyntiwyd ar wariant ar gyfer gwasanaethau hamdden a chwaraeon a gwasanaethau diwylliannol. Mae'n ymddangos bod y data hyn yn gywir oherwydd eu bod, pan fo'n gymwys, yn cyd-fynd â data Eurostat (nid yw'r DU wedi'i chynnwys). Ceir rhagor o wybodaeth am agweddau methodolegol yma. Ceir y cyfrifiadau a ddefnyddir yn y ddogfen hon yma.

Fel cafeat i'r adroddiad hwn, mae gwledydd yn adrodd ffigurau mewn ffyrdd gwahanol ac felly efallai na fydd rhywfaint o wariant yn cael ei gynnwys yn y ffigurau a adroddwyd isod a all fod yn berthnasol i'r cyfrifiadau. Er bod y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ac Eurostat yn ffynonellau dibynadwy, mae data dros dro yn bresennol yn y set ddata a gellir adolygu'r data. Cyrchwyd y data yn yr adroddiad hwn ar 27 Tachwedd 2024.

## Data i Gymru

Mae gwariant llywodraeth leol ar gyfer 2022 i'w weld ar StatsCymru. Gan ddefnyddio'r diffiniadau uchod, mae'r categorïau "Chwaraeon a hamdden" a "Llecynnau agored" yn dod o dan Ddosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth 8.1 ac mae "Gwasanaethau diwylliant a threftadaeth" a "Gwasanaethau llyfrgell" yn dod o dan Ddosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth 8.2 ar gyfer gwariant Llywodraeth Leol.

| **Llywodraeth Leol, £000** | **Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth 8.1** | | **Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth 8.2** |
|---|---|---|---|
| **Chwaraeon a hamdden** | 84,999 | Gwasanaethau diwylliant a threftadaeth | 36,222 |
| **Llecynnau agored** | 70,717 | Gwasanaethau llyfrgell | 41,758 |
| **Cyfanswm** | **155,716** | **Cyfanswm** | **77,980** |

*Tabl 1: Gwariant **llywodraeth leol** ar gyfer **Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth** 8.1 ac 8.2.*

Byddai cyllideb Cymru yn dod o dan gyllid y Llywodraeth Ganolog ac felly gellir defnyddio data o'r ail gyllideb atodol ar gyfer 2022-23. Gan ddefnyddio'r diffiniadau uchod, mae'r categorïau "Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol" ym

mhrif grŵp gwariant yr Economi yn dod o dan Ddosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth 8.1 ac mae "Cymorth ar gyfer Diwylliant a'r Celfyddydau" a "Cymorth ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol" ym mhrif grŵp gwariant yr Economi yn dod o dan Ddosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth 8.2.

| **Cyllideb, £000** | | **Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth 8.1** | | **Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth 8.2** |
|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau** | Chwaraeon a gweithgarwch corfforol | 23,113 | Cymorth ar gyfer Diwylliant a'r Celfyddydau | 88,240 |
| | | | Cymorth ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol | 16,364 |
| **Cyfalaf** | Chwaraeon a gweithgarwch corfforol | 8,314 | Cymorth ar gyfer Diwylliant a'r Celfyddydau | 24,100 |
| | | | Cymorth ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol | 11,550 |
| | **Cyfanswm** | **31,427** | **Cyfanswm** | **140,254** |

*Tabl 2: Llywodraeth Cymru, **Ail gyllideb atodol,** ffigurau ar gyfer **Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth** 8.1 ac 8.2.*

| Data Cymru 2022 | Gwariant y llywodraeth leol, £m | Gwariant y llywodraeth ganolog, £m | Cyfanswm gwariant y llywodraeth, £m |
|---|---|---|---|
| **8.1: Gwasanaethau Hamdden a Chwaraeon** | 155.72 | 31.43 | 187.14 |
| **8.2: Gwasanaethau Diwylliannol** | 77.98 | 140.25 | 218.23 |

*Tabl 3.1: Crynodeb o ddata Cymru ar gyfer **Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth** 8.1 ac 8.2.*

| Data Cymru 2022 | Gwariant £ fesul person |
|---|---|
| **8.1: Gwasanaethau Hamdden a Chwaraeon** | 59.75 |
| **8.2: Gwasanaethau Diwylliannol** | 69.68 |

***Tabl 3.2: Gwariant fesul person mewn £***

Mae gwariant Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth 8.1 i Gymru yn cyfateb i £59.75 y person ac mae gwariant Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth 8.2 i Gymru yn cyfateb i £69.68 y person. Mae data poblogaeth ar gael **yma**.

## Data ar gyfer y DU a gwledydd Ewropeaidd eraill

Mae data ar gael yma ar gyfer Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth 8.1 a Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth 8.2 ac yn cael eu dosbarthu yn ôl gwahanol wledydd ac ardaloedd Ewropeaidd. Mae data poblogaeth ar gyfer y gwledydd ar gael yn y daflen Excel. Gan ddefnyddio'r data hyn a'u trosi i GBP, rhoddir y niferoedd isod. Mae hon yn gymhariaeth debyg a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad The State of the Arts. Sylwer: Mae rhai o'r niferoedd yn wahanol i'r adroddiadau The State of the Arts, o bosibl oherwydd gwerthoedd poblogaeth wedi'u talgrynnu a/neu drosiad arian cyfred wedi'i dalgrynnu.

| Gwlad/Ardal | Gwariant £ fesul person |
|---|---|
| **Latfia** | 46.78 |
| **Gwlad Pwyl** | 54.97 |
| **Cymru** | 59.75 |
| **Lithwania** | 63.91 |
| **Y Deyrnas Unedig** | 66.18 |
| **Iwerddon** | 67.49 |
| **Yr Eidal** | 75.32 |
| **Gwlad Groeg** | 86.68 |
| **Slofenia** | 91.09 |
| **Yr Almaen*** | 101.60 |
| **Tsiecia** | 107.50 |
| **Sbaen*** | 107.86 |
| **Estonia** | 123.86 |
| **Hwngari** | 126.74 |
| **Awstria** | 128.81 |
| **Gwlad Belg*** | 159.36 |
| **Denmarc** | 171.26 |
| **Ffrainc*** | 189.93 |
| **Y Ffindir** | 200.61 |
| **Yr Iseldiroedd** | 237.56 |
| **Y Swistir** | 260.31 |
| **Sweden** | 285.88 |
| **Norwy** | 290.22 |
| **Lwcsembwrg** | 483.46 |
| **Gwlad yr Iâ** | 978.51 |

***Tabl 4: Gwariant £ fesul person ar gyfer Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth 8.2 Gwasanaethau Diwylliannol ar gyfer gwledydd Ewropeaidd dethol***


| Gwlad/Ardal | Gwariant £ fesul person |
|---|---|
| **Gwlad Groeg** | 26.29 |
| **Cymru** | 69.68 |
| **Gwlad Pwyl** | 80.98 |
| **Yr Eidal** | 82.83 |
| **Y Deyrnas Unedig** | 91.12 |
| **Sbaen*** | 113.36 |
| **Tsiecia** | 138.08 |
| **Iwerddon** | 149.97 |
| **Lithwania** | 150.72 |
| **Yr Almaen*** | 154.85 |
| **Latfia** | 156.32 |
| **Slofenia** | 158.51 |
| **Hwngari** | 162.16 |
| **Y Ffindir** | 205.79 |
| **Awstria** | 207.32 |
| **Gwlad Belg*** | 209.98 |
| **Estonia** | 210.86 |
| **Yr Iseldiroedd** | 223.88 |
| **Sweden** | 236.01 |
| **Ffrainc*** | 237.61 |
| **Denmarc** | 285.08 |
| **Y Swistir** | 296.94 |
| **Norwy** | 389.23 |
| **Lwcsembwrg** | 500.90 |
| **Gwlad yr Iâ** | 691.60 |

***Tabl 5: Gwariant £ fesul person ar gyfer Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth 8.2 Gwasanaethau Diwylliannol ar gyfer gwledydd Ewropeaidd dethol***

## Sut mae Cymru yn cymharu?

### Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth 8.1: Gwasanaethau hamdden a chwaraeon

Mae Cymru yn y trydydd safle o'r gwaelod o blith y gwledydd yr edrychwyd arnynt o ran cyllid ar gyfer gwasanaethau hamdden a chwaraeon, ac mae ganddi swm tebyg o gyllid â Gwlad Pwyl a Lithwania. Mae Cymru yn is na'r DU o ran cyllid, mae gan Gymru gyllid o £59.75 fesul person ar gyfer gwasanaethau hamdden a chwaraeon o'i gymharu â chyllid y DU o £66.18 fesul person.





***data dros dro**

***Ffigur 1: Gwledydd Ewropeaidd Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth 8.1 Gwariant gwasanaethau hamdden a chwaraeon fesul person mewn GBP yn 2022.***

## Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth 8.2 Gwasanaethau diwylliannol

Mae Cymru yn ail o'r gwaelod o ran gwariant fesul person ar wasanaethau diwylliannol, ac yn is na'r holl wledydd dethol heblaw Gwlad Groeg. Mae gan Gymru wariant o £69.68 fesul person ar wasanaethau diwylliannol o'i gymharu â gwariant y DU o £91.12 fesul person.




***data dros dro***

***Ffigur 2: Gwledydd Ewropeaidd Dosbarthiad o Swyddogaethau'r Llywodraeth 8.2 Gwariant gwasanaethau diwylliannol fesul person mewn GBP yn 2022.***

# Atodiad 2: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **26 Medi 2024** | **Adele Thomas,**<br>Opera Cenedlaethol Cymru<br>**Ashok Ahir,**<br>Llyfrgell Genedlaethol Cymru<br>**Christopher Barron,**<br>Opera Cenedlaethol Cymru<br>**Dafydd Rhys,**<br>Cyngor Celfyddydau Cymru<br>**Rhodri Llwyd Morgan,**<br>Llyfrgell Genedlaethol Cymru |
| **09 Hydref 2024** | **Y Farwnes Tanni Grey-Thompson,**<br>Chwaraeon Cymru<br>**Brian Davies,**<br>Chwaraeon Cymru<br>**Christopher Catling,**<br>Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru<br>**Hayley Roberts,**<br>Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru |
| **17 Hydref 2024** | **Hannah Firth,**<br>Canolfan Gelfyddydau Chapter<br>**Helgard Krause,**<br>Cyngor Llyfrau Cymru<br>**Louise Miles-Payne,**<br>Creu Cymru<br>**Naomi Chiffi,**<br>National Theatre Wales<br>**Sharon Stone,**<br>Canolfan Gelfyddydau Chapter |
| **24 Hydref 2024** | **Amanda Davies,** |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | Byw'n Iach<br>**Andrew Howard,**<br>Cymdeithas Chwaraeon Cymru<br>**Emily Owen,**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>**Fergus Feeny,**<br>Nofio Cymru<br>**Huw Thomas,**<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>**Roland Evans,**<br>Cyngor Gwynedd<br>**Sarah Ecob,**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>**Vicki Sutton,**<br>Pêl-rwyd Cymru |
| **13 Tachwedd 2024** | **Jack Sargeant AS,**<br>Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol<br>**Paul Kindred,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Ruth Meadows,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Steffan Roberts,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 3: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **IFRCS 01** | Clwb Hoci Y Rhyl a'r Cylch |
| **IFRCS 02** | Gymnasteg Cymru |
| **IFRCS 03** | Equity |
| **IFRCS 03a** | Equity – Maniffesto Ategol |
| **IFRCS 04** | Prifysgol Metropolitan Caerdydd – Ysgol Celf a Dylunio |
| **IFRCS 05** | Prifysgol Metropolitan Caerdydd – Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd |
| **IFRCS 06** | Steffan Jones-Hughes |
| **IFRCS 07** | Sboncen Cymru |
| **IFRCS 08** | Meg Ryder |
| **IFRCS 09** | Timothy Payne |
| **IFRCS 10** | Canolfan Grefft Rhuthun |
| **IFRCS 11** | Unigolyn 01 |
| **IFRCS 12** | Clwb Hoci Tregŵyr |
| **IFRCS 13** | Canolfan Gelfyddydau Wyeside |
| **IFRCS 14** | Pedr ap Llwyd |
| **IFRCS 15** | Sofia Lazaridi |
| **IFRCS 16** | Clwb Hoci Athletau Caerfyrddin |
| **IFRCS 17** | Cyngor Sir Ynys Môn |
| **IFRCS 18** | Creu Cerddoriaeth |
| **IFRCS 19** | Gwasanaeth Amgueddfeydd Merthyr Tudful |
| **IFRCS 20** | Cyngor Gwynedd |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **IFRCS 21** | Chapter Caerdydd Cyf |
| **IFRCS 22** | Unigolyn 02 |
| **IFRCS 23** | Opera Canolbarth Cymru |
| **IFRCS 24** | Yr Athro Frank Banks |
| **IFRCS 25** | Creu Cymru |
| **IFRCS 26** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **IFRCS 27** | Clwb Hoci Merched Northhop Hall |
| **IFRCS 28** | CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) |
| **IFRCS 29** | Yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth |
| **IFRCS 30** | Beicio Cymru |
| **IFRCS 31** | Llenyddiaeth Cymru |
| **IFRCS 32** | Community Leisure UK |
| **IFRCS 33** | Canolfan Ffilm Cymru |
| **IFRCS 34** | Codi Pwysau Cymru |
| **IFRCS 35** | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **IFRCS 36** | Prifysgol Caerdydd, Canolfan yr Economi Greadigol |
| **IFRCS 37** | Nofio Cymru |
| **IFRCS 38** | Clwb Hoci Gwent |
| **IFRCS 39** | Clwb Hoci Caerdydd a Met |
| **IFRCS 40** | CBHC |
| **IFRCS 41** | Chwaraeon Cymru |
| **IFRCS 41a** | Chwaraeon Cymru - Atodiad |
| **IFRCS 42** | Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru |
| **IFRCS 43** | Cymdeithas Tennis Lawnt a Tennis Cymru |
| **IFRCS 44** | Undeb y Cerddorion |
| **IFRCS 45** | Cymdeithas Bêl-droed Cymru |
| **IFRCS 46** | Cymdeithas Chwaraeon Cymru |
| **IFRCS 47** | Athletau Cymru |
| **IFRCS 48** | StreetGames |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **IFRCS 49** | Chwaraeon Anabledd Cymru |
| **IFRCS 50** | TAC |
| **IFRCS 51** | Hoci Cymru |
| **IFRCS 52** | Llyfrgell Genedlaethol Cymru |
| **IFRCS 53** | Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol |
| **IFCRS 54** | Huw Milward, Datblygwr Gemau a band Dim Parcio |